WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – **Llywodraeth Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1536A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cyflawnwyd y gwaith hwn gan Claire Flood-page, Emma Giles, Rachel Harries a Christine Nash, dan gyfarwyddyd Matthew Mortlock.

# Cynnwys

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu i sefydlu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei busnes craidd ac mae'n cymhwyso'r pum ffordd o weithio mewn amryw ffyrdd er ein bod ni wedi canfod rhai cyfleoedd cyffredin i wella.


Pam y cynhaliom ni'r Archwiliad ....5

Ffocws y gwaith ....6

Prif ganfyddiad ....7

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau gweithredu pellach i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei drefniadau corfforaethol yn ystod 2018-19 ....9

Fe adnewyddodd Llywodraeth Cymru ei strwythur uwch reolwyr i ganolbwyntio ac integreiddio gwaith ar ei meysydd blaenoriaeth ....9

Fe sefydlodd Llywodraeth Cymru Is-adran y Dyfodol a Llunio Polisïau mewn Modd Integredig ....9

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei threfniadau ar gyfer adrodd ar gynnydd fel sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf ....10

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru declyn asesu effaith integredig ym mis Gorffennaf 2018 ac fe adolygodd ei dull o ran cynnal asesiad effaith integredig strategol o'r gyllideb ddrafft ....11

Fe gytunodd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar ddiffiniad o 'atal' a fydd yn ategu prosesau penderfynu a dadansoddi yn y dyfodol ....13

Fe dreialodd Llywodraeth Cymru ddull cyllidebu cyfranogol cyn ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2019-20 ....14

Yn y camau a adolygwyd gennym, roedd Llywodraeth Cymru yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio mewn amryw ffyrdd er ein bod wedi adnabod rhai cyfleoedd cyffredin i wella ....15

Gallai Llywodraeth Cymru wella'i thystiolaeth o effaith hirdymor y camau a datblygu ei dealltwriaeth am atal ....15

Roedd gwaith ar draws y Llywodraeth wedi'i integreiddio i helpu i gyflawni ei hamcanion llesiant ....16

Fe gydweithiodd Llywodraeth Cymru yn agos gyda phartneriaid i gyflawni'r camau er ein bod wedi adnabod cyfleoedd pellach ....18

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys amryw randdeiliaid ond nid yw wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â dinasyddion ym mhob achos ....19

Atodiadau

Atodiad 1 – dangosyddion cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio ....21

Atodiad 2 – darparu 100,000 o brentisiaethau newydd yn nhymor y Cynulliad yn 2016-2021 ....23

Atodiad 3 – Cynnig Gofal Plant i Gymru....................................................................31
Atodiad 4 – Y Gronfa Egnïol ac Iach ........................................................................38
Atodiad 5 – ymateb Llywodraeth Cymru..................................................................44

# Adroddiad cryno

## Pam y cynhaliom ni'r Archwiliad

1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. pennu eu hamcanion llesiant; a

b. cymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn bob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2021.

4 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad rhagarweiniol, 'Myfyrio ar Flwyddyn Un - Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)'. Daeth i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid y ffordd y maent yn gweithio.

5 Yn ystod 2018 a 2019, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol. Wrth ddatblygu ein dull o wneud y gwaith hwn, fe wnaethom ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid ac fe wnaethom waith peilot mewn nifer o gyrff yn ystod 2017-18, gan gynnwys yn Llywodraeth Cymru. Fe wnaethom hefyd gydweithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

6 Roedd y gwaith rhagarweiniol a wnaethom yn 2017-18 yn cynnwys ystyried sut yr oedd cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant. Mae ein gwaith diweddaraf yn canolbwyntio ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

7 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'pum ffordd o weithio' (Arddangosyn 1). Fe ddatblygom ni rai dangosyddion o'r ffyrdd hyn o weithio i helpu i oleuo ein gwaith (Atodiad 1).

### Arddangosyn 1: y pum ffordd o weithio

| Y Pum Ffordd o Weithio |
|---|
| **Hirdymor** |
| Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal** |

| Y Pum Ffordd o Weithio |
|---|
| Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio** |
| Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio** |
| Cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) a allai helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys** |
| Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu. |

## Ffocws y gwaith

8 Fe archwiliom ni gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei busnes craidd yn 2018-19. Gwaith lefel-uchel, yn hytrach nag archwiliad trylwyr, oedd yr hyn a gyflawnwyd gennym. Fe ganolbwyntiom ni ar y cyfnod ers mis Ebrill 2018, a ninnau wedi casglu tystiolaeth yn flaenorol i oleuo adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018. Ar ddiwedd 2018, gofynnodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gyrff cyhoeddus ddarparu tystiolaeth o'u camau gweithredu i ateb gofynion y Ddeddf. Fe rannodd Llywodraeth Cymru ei hymateb gyda ni.

9 Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hamcanion llesiant cyntaf ym mis Medi 2016 yn 'Symud Cymru Ymlaen'[1], y datganiad o'i blaenoriaethau ar ôl etholiad y Cynulliad yn 2016. Yna, fe ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r amcanion fel rhan o strategaeth genedlaethol. Ym mis Medi 2017, cyhoeddodd Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol[2] gyda rhestr ddiwygiedig o 12 o amcanion llesiant. Roedd y strategaeth hon yn trefnu ei hamcanion dan bedair thema allweddol ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad. Tanategir yr amcanion gan 136 o ymrwymiadau. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru nodi pum maes blaenoriaeth hefyd a oedd, yn ei thyb hi, yn cynnig y potensial mwyaf i wella ffyniant a llesiant a'r angen am weithio ar draws y llywodraeth: y blynyddoedd cynnar, gofal cymdeithasol, tai, iechyd meddwl a sgiliau a chyflogadwyedd. Fe ychwanegodd chweched flaenoriaeth – datgarboneiddio – ym mis Medi 2018[3].

---

[1] Llywodraeth Cymru, **Symud Cymru Ymlaen 2016-2021**, 20 Medi 2016

[2] Llywodraeth Cymru, **Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol**, Medi 2017

[3] Roedd Strategaeth Genedlaethol 2017 yn cynnwys camau sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio. Fe ymgynghorodd Llywodraeth Cymru yn ehangach ynghylch ei dull o ddatgarboneiddio yn ystod 2018 ac fe gyhoeddodd ei strategaeth datgarboneiddio gyntaf ym mis Mawrth 2019 (Llywodraeth Cymru, **Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon-isel**, Mawrth 2019).

Arddangosyn 2: amcanion llesiant Llywodraeth Cymru

| Amcanion llesiant Llywodraeth Cymru | | | |
|---|---|---|---|
| **Ffyniannus a Diogel** | **Iach ac Egnïol** | **Uchelgeisiol ac yn Dysgu** | **Unedig a Chysylltiedig** |
| 1.Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant | 4. Darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas i'r dyfodol | 7. Helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial | 10. Datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth |
| 2.Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg | 5. Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb | 8. Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw | 11. Darparu seilwaith modern a chysylltiedig |
| 3.Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd | 6. Creu cymunedau mwy iach ac amgylchiadau gwell | 9. Sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid | 12. Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byw |

10 Fe archwiliom ni i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn mwy o fanylder mewn tri cham sy'n cyfrannu at 'Ffyniant i Bawb'. O ystyried ehangder cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, fe wnaethom ddethol cam a arweinir gan is-adran polisi ym mhob un o'i thri phrif grŵp ac o wahanol feysydd blaenoriaeth:

a) darparu 100,000 o brentisiaethau newydd o safon uchel yn nhymor y Cynulliad yn 2016-2021 (Yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol);

b) Cynnig Gofal Plant Cymru – 30 awr o addysg a gofal plant ar gyfer rhieni i blant 3 a 4 oed sy'n gweithio (Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus); ac

c) Y Gronfa Iach ac Egnïol – partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i wella iechyd meddwl a chorfforol trwy alluogi pobl i fabwysiadu ffyrdd o fyw mwy iach ac egnïol (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol).

11 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein canfyddiadau o'r gwaith a wnaed gennym rhwng mis Chwefror a mis Mai 2019. Fe gyflwynom ni ein canfyddiadau i Lywodraeth Cymru mewn gweithdai gyda chynrychiolwyr a oedd yn rhan o gyflawni pob cam ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2019.

## Prif ganfyddiad

12 Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i sefydlu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei busnes craidd. Yn y tri cham a adolygwyd gennym ni, mae'n cymhwyso'r pum ffordd o weithio mewn amryw ffyrdd er ein bod ni wedi canfod rhai cyfleoedd cyffredin i wella.

13 Mae prif gorff yr adroddiad hwn yn crynhoi ein canfyddiadau. Mae'n darparu rhagor o fanylion am ddatblygiadau yn nhrefniadau corfforaethol Llywodraeth Cymru ac yn

crynhoi rhai themâu cyffredin o’n harchwiliad o’r tri cham. Mae Atodiadau 2, 3 a 4 yn nodi ein canfyddiadau mewn perthynas â phob cam. Ymateb Llywodraeth Cymru i’r canfyddiadau yw Atodiad 5.

# Prif adroddiad

## Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau gweithredu pellach i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei drefniadau corfforaethol yn ystod 2018-19

### Fe adnewyddodd Llywodraeth Cymru ei strwythur uwch reolwyr i ganolbwyntio ac integreiddio gwaith ar ei meysydd blaenoriaeth

14 Yn y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaeth Prif Weinidog Cymru a'r Ysgrifennydd Parhaol ddatganiadau a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd y Ddeddf a'r pum ffordd o weithio. Ym mis Awst 2018, fe gyhoeddodd yr Ysgrifennydd Parhaol strwythur uwch reolwyr newydd ar gyfer Llywodraeth Cymru. O fis Medi 2018 fe ddisodlwyd yr Uwch Dîm Rheoli â Phwyllgor Gweithredol. Fe wnaeth dai is-bwyllgor, y naill yn canolbwyntio ar bobl a gwasanaethau corfforaethol, a'r llall yn canolbwyntio ar gyllid a llywodraethu ddisodli'r Pwyllgor Gweithrediadau ehangach ei ffocws.

15 Nod y Bwrdd Gweithredol yw darparu arweinyddiaeth a sicrwydd strategol bod rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cael ei chyflawni a sicrhau bod adnoddau'n cael eu blaenoriaethu a'u lleoli'n effeithiol. Un o'i aelodau (Cyfarwyddwr – Llywodraethu a Moeseg) yw Hyrwyddwr Enwebedig Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn nhyb Llywodraeth Cymru, mae bod â hyrwyddwr ar lefel y Bwrdd wedi helpu i wreiddio'r agenda ar draws prosesau penderfynu'r sefydliad a'r modd y mae'n rhoi'r penderfyniadau ar waith.

16 Mae'r newidiadau i'r strwythur arweinyddiaeth wedi cynnwys 'Grŵp Cyfarwyddwyr Ffyniant i Bawb' hefyd i ddarparu cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu polisi yn ei meysydd blaenoriaeth.

### Fe sefydlodd Llywodraeth Cymru Is-adran y Dyfodol a Llunio Polisïau mewn Modd Integredig

17 Fe sefydlodd Llywodraeth Cymru Is-adran y Dyfodol a Llunio Polisïau mewn Modd Integredig i gefnogi cydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru a chryfhau'r gallu i wneud penderfyniadau yn fwy cyffredinol, a hynny'n cael ei danategu gan y Ddeddf a'r pum ffordd o weithio. Ym misoedd cyntaf ei weithrediad, bu gan yr Is-adran gyfrifoldeb sylweddol am adrodd ar gynnydd gan gynnwys paratoi cyfraniad ar gyfer Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol y DU yn 2019 o'i gynnydd yn erbyn 17 nod datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig[4]. Fe arweiniodd hefyd ar baratoi

[4] Llywodraeth EM, **Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol o gynnydd tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy**, Mehefin 2019

adroddiad hunanfyfyrio Llywodraeth Cymru ar gynnydd tuag at ei hamcanion llesiant ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Is-adran wedi cwblhau adolygiad cynhwysfawr yn ddiweddar o'r gallu llunio polisïau ar draws Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar gymorth a hyfforddiant yn y dyfodol.

18 Mae'r Is-adran wedi bod yn recriwtio staff dros y flwyddyn ddiwethaf yng nghyd-destun pwysau ehangach o ran adnoddau a llwyth gwaith ar draws Llywodraeth Cymru ond mae'n dal i fod yn fwriadol fach, gydag wyth aelod o staff ar hyn o bryd, sef y nifer y cytunwyd arno. Ffocws yr Is-adran yw rhoi cymorth i eraill ar draws Llywodraeth Cymru yn hytrach na gwneud gwaith gwreiddio'r Ddeddf drostynt. Mae'r Is-adran wedi datblygu rhaglen waith lefel uchel a 'Map Trywydd' ar draws Llywodraeth Cymru gyfan ar gyfer rhoi'r Ddeddf ar waith. Mae cynlluniau mwy manwl wrthi'n cael eu trafod. Yn y gwaith hwn nid ydym wedi archwilio pa mor effeithiol y mae'r Is-adran yn cyflawni ei rhaglen.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei threfniadau ar gyfer adrodd ar gynnydd fel sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf

### Y nodau llesiant cenedlaethol

19 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru adrodd yn flynyddol ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar y cyd tuag at gyrraedd y saith nod llesiant cenedlaethol. Cynhyrchodd yr ail adroddiad 'Llesiant Cymru'[5] ym mis Medi 2018 gyda sylwebaeth ar y cynnydd gyda phob un o'r 46 o ddangosyddion cynnydd tuag at y nodau. Cafodd y trydydd adroddiad 'Llesiant Cymru 2019' ei gyhoeddi ym mis Medi[6].

20 Ceisiodd Ystadegau ar gyfer Cymru adborth ar yr adroddiad Llesiant Cymru cyntaf a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017. Nid yw nifer o'r ffynonellau data – gan gynnwys Arolwg Cenedlaethol Cymru – yn cynnwys plant a phobl ifanc dan 16. Felly, fe gyhoeddodd Ystadegau ar gyfer Cymru adroddiad ategol ar lesiant plant a phobl ifanc[7] yn seiliedig ar ystod ehangach o ffynonellau. Gwahoddodd Llywodraeth Cymru adborth ar yr adroddiad a pha un a oes galw am adroddiadau eraill, â ffocws mwy pendant[8]. Mae'r adroddiad Llesiant Cymru 2019 yn fyrrach, gan ddarparu diweddariad ar newidiadau yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n cynnwys data newydd ar destunau newydd megis seiberfwlio neu ffynonellau newydd neu gyfnodol megis yr arolwg o gyflwr tai. Bwriad datganedig Ystadegau ar gyfer

---

[5] Ystadegau ar gyfer Cymru / Llywodraeth Cymru, **Llesiant Cymru 2017-18**, Medi 2018.

[6] Ystadegau ar gyfer Cymru / Llywodraeth Cymru **Llesiant Cymru 2018-19**, Medi 2019

[7] Ystadegau ar gyfer Cymru / Llywodraeth Cymru, **Llesiant Cymru 2017-18: Beth ydym ni'n ei wybod am lesiant plant 2017-18**, Medi 2018

[8] Llywodraeth Cymru, **Llesiant Cymru: ymateb i adborth o'r arolwg defnyddwyr**, Mehefin 2018

Cymru yw llunio dadansoddiad mwy manwl bob 4-5 mlynedd i bwyso a mesur cynnydd hirdymor yn fwy.

### Amcanion llesiant Llywodraeth Cymru

21 Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru, yn gyffredin â'r holl gyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf, adrodd yn flynyddol ar gynnydd tuag at gyflawni ei hamcanion llesiant. Cyhoeddwyd ei hail adroddiad blynyddol ym mis Medi[9]. Mae Atodiad manwl yn nodi ei barn ynglŷn â chynnydd tuag at bob un o 135 o ymrwymiadau Llywodraeth Cymru yn 'Ffyniant i Bawb' a'i 16 o ymrwymiadau yn 'Symud Cymru Ymlaen'[10].

## Cyflwynodd Llywodraeth Cymru declyn asesu effaith integredig ym mis Gorffennaf 2018 ac fe adolygodd ei dull o ran cynnal asesiad effaith integredig strategol o'r gyllideb ddrafft

22 Mae asesiadau effaith[11] yn helpu llywodraethau a phenderfynwyr i dargedu adnoddau ar gamau gweithredu a deall effaith gyffredinol penderfyniad. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod angen i'w dull o gynnal asesiadau effaith esblygu. Cyhoeddodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2016. Roedd yn nodi problemau gydag asesiadau effaith gan gynnwys eu hansawdd ac amseriad, er enghraifft roedd 18 o destunau ar gyfer asesu effaith, yr oedd rhai ohonynt yn gorgyffwrdd[12]. Roedd yr adroddiad yn argymell datblygu asesiadau effaith â dealltwriaeth glir am eu diben ac a oedd yn integreiddio â chyfeiriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

23 Fe lansiodd Llywodraeth Cymru declyn asesu effaith integredig newydd ym mis Gorffennaf 2018. Dywedodd wrthym fod adborth yn awgrymu bod y teclyn yn ddefnyddiol o ran ei gwneud yn bosibl defnyddio dull mwy integredig ond ei fod yn weddol gymhleth, hir a brawychus, yn enwedig os caiff ei ystyried yn hwyr yn y broses benderfynu. Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o adolygu a phrofi'r teclyn, gyda'r nod o roi cymorth i asesu effaith mewn modd ailadroddol a thrwy gydol y broses llunio polisi a deddfwriaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y

---

[10] Llywodraeth Cymru, **Ffyniant i Bawb: Adroddiad Blynyddol**, Atodiad mis Medi 2018

[11] Dealltwriaeth strwythuredig o ganlyniadau bwriadedig ac anfwriadol camau gweithredu ac ymyriadau gan lywodraeth yw asesiadau effaith. Gellir eu cymhwyso i ddeddfwriaeth (deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth), i ddatblygiadau polisi arwyddocaol, ac (o bosibl) i fuddsoddiadau a phenderfyniadau cyllidebol arwyddocaol.

[12] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, **Reducing Complexity and Adding Value: A Strategic Approach to Impact Assessment in the Welsh Government**, Chwefror 2016

bydd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol gan gynnwys y comisiynwyr statudol ac aelodau o'r Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb yn ystod ei hadolygiad[13].

24 Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf yn y DU i gyhoeddi asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer ei gynlluniau gwariant (yng nghyllideb 2011-12). Roedd wedi cyhoeddi asesiad o'r effaith ar blant a phobl ifanc ar gyfer cyllideb ddrafft 2010. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i asesu effaith ei pholisïau a'i chyllideb wedi cynyddu[14]. Ers 2015-16, mae dull Llywodraeth Cymru o ddatblygu Asesiad Effaith Integredig Strategol o'r gyllideb wedi esblygu. Ei nod yw ystyried penderfyniadau strategol ynglŷn â gwariant o nifer o safbwyntiau i ddeall eu heffaith yn hytrach na llunio nifer o asesiadau effaith ar wahân. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn cynnwys effaith y gyllideb ar gydraddoldeb a hawliau dynol; hawliau plant; y Gymraeg; y newid yn yr hinsawdd; diogelu at y dyfodol; iechyd; bioamrywiaeth; a datblygu economaidd

25 Ym mis Mawrth 2019, adroddodd Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Phwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad Cenedlaethol ar eu hymchwiliad ar y cyd i'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn asesu effaith ei phenderfyniadau cyllidebol ar bobl Cymru[15]. Mae eu hadroddiad yn cydnabod ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddwyn llawer o wybodaeth ynghyd mewn un asesiad effaith integredig strategol. Fodd bynnag, dywedodd fod angen i Lywodraeth Cymru sefydlu disgwyliad a dealltwriaeth a rennir o ran asesiadau effaith integredig a'r asesiad effaith integredig strategol o'r gyllideb a sut y maent yn rhyngweithio â'r dirwedd ddeddfwriaethol bresennol, yn anad dim ymhlith comisiynwyr statudol ac Aelodau'r Cynulliad.
Fe wnaeth y pwyllgorau bum argymhelliad i wella'r asesiad effaith integredig strategol a'r teclyn asesu effaith integredig newydd. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr holl argymhellion naill ai'n llawn neu mewn egwyddor. Nododd y byddai'n ystyried a allai a sut y gallai diogelwyr taith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a ddatblygwyd fel rhan o'i rhaglen 'Y Gallu i Greu' gefnogi'r broses asesiadau effaith integredig strategol.

---

[13] Llywodraeth Cymru, **Ymateb i'r adroddiad ar y cyd gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a Phwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol'**, Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mawrth 2019

[14] Mae rhwymedigaethau cyfreithiol amrywiol ar Lywodraeth Cymru i asesu effaith ei pholisïau a'i chyllidebau, gan gynnwys dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus sy'n berthnasol yn benodol i Gymru dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[15] Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a Phwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol**, Mawrth 2019

## Fe gytunodd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar ddiffiniad o 'atal' a fydd yn ategu prosesau penderfynu a dadansoddi yn y dyfodol

26 Wedi iddo graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18, argymhellodd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth ategol ar adeg cyllidebau drafft yn y dyfodol i ddangos sut y mae dyraniadau cyllidebol yn cefnogi buddsoddiadau mewn atal[16]. Fe ailddatganodd y Pwyllgor hyn wrth graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19[17]. Yn ystod 2018-19, bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gytuno ar ddiffiniad o atal cyn cyhoeddi cyllideb ddrafft 2019-20 (Arddangosyn 3). Mae'r diffiniad wedi'i fwriadu i roi cymorth gyda pholisi a ffocws cynyddol ar atal anawsterau ar gyfer pobl, yr economi a'r amgylchedd cyn iddynt godi.

Arddangosyn 3: diffiniad o 'atal'

| Diffiniad o 'atal' |
|---|
| Atal yw gweithio mewn partneriaeth i gyd-gynhyrchu'r canlyniadau gorau posibl, gan ddefnyddio'r cryfderau a'r asedau sydd gan bobl a llefydd i'w cyfrannu. Gan rannu i bedair lefel, gall pob lefel leihau'r galw am yr un nesaf:<br>1. **Atal sylfaenol (AS)** – Adeiladu gwytnwch – creu'r amodau fel na fydd problemau'n codi yn y dyfodol. Dull gweithredu cyffredinol.<br>2. **Atal eilaidd (AE)** – Targedu gweithredu tuag at ardaloedd lle y mae risg uchel i broblemau ddigwydd. Dull gweithredu wedi'i dargedu, sy'n atgyfnerthu egwyddorion cyffredinoliaeth gynyddol[1].<br>3. **Atal trydyddol (AT)** – Ymyrryd pan fydd problem, i'w hatal rhag gwaethygu ac atal iddi ddigwydd eto yn y dyfodol. Dull gweithredu ar sail ymyrryd.<br>4. **Gwariant acíwt (GA)** – Gwariant sy'n cymryd camau i reoli effaith sefyllfa hynod negyddol ond sy'n gwneud ychydig neu ddim byd i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol. Dull gweithredu adferol.<br>Nodyn:<br>1. Cyffredinoliaeth gynyddol yw bod yn benderfynol o ddarparu cefnogaeth i bawb, gan roi llais a diddordeb penodol i bawb a phopeth, ond gan gydnabod y bydd angen mwy o gefnogaeth ar y bobl neu'r meysydd hynny sydd â'r angen mwyaf. |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Hydref 2018

27 Roedd naratif manwl Llywodraeth Cymru ar gyllideb ddrafft 2019-20 yn cynnwys dadansoddiad o wariant yn Llywodraeth Cymru yn erbyn y diffiniad o atal mewn

[16] Y Pwyllgor Cyllid **Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18** Tachwedd 2016, Argymhelliad 8

[17] Y Pwyllgor Cyllid **Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19** Rhagfyr 2017, Argymhelliad 7

meysydd gwariant penodol o'r prif grwpiau gwariant[18]. Dywedodd y bydd yn parhau i weithio gyda'r trydydd sector a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu'r gwaith hwn i gefnogi penderfyniadau gwariant ataliol. Yn ei thystiolaeth i'w Pwyllgor Cyllid, disgrifiodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hyn fel un o'r pethau allweddol yn y gyllideb, gan ddweud 'I know numerous Assembly committees have been advocating for a definition of prevention for many years, and that has never been able to happen'[19]. Roedd y Comisiynydd yn croesawu'r hyn a ddisgrifiodd fel dull partneriaeth gwirioneddol gyda Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr allanol i ddatblygu'r diffiniad. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar o ran defnyddio'r diffiniad i gyflwyno neu ddadansoddi'r gyllideb neu ei defnyddio ar draws y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill[20].

## Fe dreialodd Llywodraeth Cymru ddull cyllidebu cyfranogol cyn ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2019-20

28 Mae cyllidebu cyfranogol wedi denu llawer o ddiddordeb yng ngwledydd y DU ac mewn gwledydd eraill. Yng Nghymru, fe'i defnyddiwyd i ryw raddau mewn llywodraeth leol a lleoliadau eraill. Daeth adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017 i'r casgliad ei fod, o'i wneud yn dda, yn gallu arwain at ymgysylltu'n well â dinasyddion, dealltwriaeth sy'n pontio'r cenedlaethau, hunanhyder ymhlith cyfranogwyr, ac at newid barn darparwyr gwasanaethau[21]. Roedd adborth cychwynnol o gynllun peilot cyllidebu cyfranogol Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod angen i bobl ddeall ffynonellau cyllid cyhoeddus mewn gweinyddiaeth ddatganoledig cyn gallu cymryd rhan mewn trafodaethau cyllidebu. Hefyd, bod gan bobl yng Nghymru fwy o ddiddordeb yn eu hardal leol nag mewn dulliau gwlad gyfan[22]. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod y cynllun peilot wedi'u helpu i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth am wariant cyhoeddus a threth. Bydd hyn yn cynnwys archwilio cyfleoedd i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a gwella dogfennaeth a gyhoeddir am y gyllideb i ledaenu negeseuon allweddol mewn modd syml.

---

[18] Llywodraeth Cymru, **Cynigion Manwl ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2019-20**, Atodiad A Hydref 2018

[19] Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ,15 Tachwedd 2018 para 135

[20] Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ,15 Tachwedd 2018 paragraffau 153 a 136

[21] Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru, **Participatory Budgeting: An Evidence Review**, Awst 2017

[22] Llywodraeth Agored Cymru, **Participatory Budgeting - Lessons from the UK & Beyond**, Gweminar 27 Medi 2018

# Yn y camau a adolygwyd gennym, roedd Llywodraeth Cymru yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio mewn amryw ffyrdd er ein bod wedi adnabod rhai cyfleoedd cyffredin i wella

## Gallai Llywodraeth Cymru wella'i thystiolaeth o effaith hirdymor y camau a datblygu ei dealltwriaeth am atal

29 Canfuom fod Llywodraeth Cymru, wrth ddatblygu pob cam, wedi disgrifio'i nodau byrdymor a hirdymor yn eglur. Defnyddiodd dystiolaeth berthnasol i oleuo'r broses o ddatblygu polisi. Er enghraifft, caiff strategaeth 2017 '**Cysoni'r model Prentisiaethau ag anghenion economi Cymru**' ei goleuo gan dueddiadau hirdymor a ragwelir yn yr economi yn ogystal ag yn y byrdymor gan wybodaeth a ddarperir gan gyflogwyr cyfredol trwy'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol. Mae'r Gronfa Iach ac Egnïol yn seiliedig ar ddealltwriaeth am bwysigrwydd cynyddu gweithgarwch corfforol a gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol. Roedd y cynnig gofal plant yn nodi'n eglur bod cysylltiad rhwng cynyddu nifer y rhieni mewn gwaith a chodi incwm aelwydydd.

30 Bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill sydd ag arbenigedd i ddylunio a chyflawni'r camau. Tynnodd ar adroddiadau gan Gomisiynydd y Gymraeg ac Estyn i ddatblygu partneriaethau a gyflawnir yn rhannol neu'n llawn yn Gymraeg a phrentisiaethau cynhwysol. Bu'n gweithio gyda Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y Gronfa Iach ac Egnïol a thynnodd ar arbenigedd y sector gofal plant wrth ddatblygu ei chynnig gofal plant.

31 Roedd Llywodraeth Cymru wedi dyrannu adnoddau i gyflawni manteision hirdymor ac atal niwed. Er enghraifft, mae'r strategaeth prentisiaethau'n golygu rhoi mwy o ffocws ar feysydd sgiliau sy'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae'n symud buddsoddiad o ardaloedd sy'n hanesyddol wedi cael cyfran fwy o gyllid er bod cwestiynau wedi cael eu codi am y dull hwn[23]. Yn ogystal â buddsoddi'n uniongyrchol yn y cynnig gofal plant, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio cyllid prentisiaethau i gefnogi prentisiaethau mewn gofal plant ar lefel 2 a 3. Mae hefyd wedi dyrannu £80 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer cyfleusterau gofal plant mewn ysgolion i gynyddu gofal 'cofleidiol'. Grant newydd gwerth £5.4 miliwn i gefnogi grwpiau a phrosiectau cymunedol sy'n galluogi pobl i fyw bywydau iachach ac egnïol trwy gynyddu gweithgarwch corfforol yw'r Gronfa Iach ac Egnïol.

32 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiadau o'r Cynnig Gofal Plant a'r Gronfa Iach ac Egnïol. Mae'n gwella'r data ar brentisiaethau. Fodd bynnag, fe ganfuom fylchau mewn cynlluniau ar gyfer ymchwil a gwerthuso a allai gyfyngu ar ddealltwriaeth Llywodraeth Cymru am eu heffaith hirdymor a'r hyn sy'n gweithio o

[23] Er enghraifft, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Prentisiaethau yng Nghymru**, Chwefror 2018

ran atal. Er enghraifft, mae adolygiadau blaenorol wedi gwneud sylwadau ynghylch y diffyg data cyson ar ddeilliannau mewn addysg ôl-orfodol, gan gynnwys dysgu seiliedig-ar-waith a phrentisiaethau[24]. Mae ystadegau ar nifer a chyfran y bobl sy'n gadael prentisiaethau a hwythau wedi cyflawni lefel y fframwaith llawn ar gael[25]. Bwriedir i ddata sy'n nodi cyrchfannau mwy hirdymor prentisiaid fod ar gael o 2020. Bydd hwn yn darparu rhagor o dystiolaeth ar effeithiolrwydd hirdymor prentisiaethau o ran gwella datblygiad gyrfa neu gyflog neu gynnal cyflogaeth. Mae angen yr wybodaeth hon i helpu'r Llywodraeth, cyflogwyr a phrentisiaid posibl i farnu eu gwerth hirdymor i wahanol bobl ac yn ôl sector galwedigaethol.

33 Bydd anawsterau o ran tracio pobl ar ôl ymyriadau yn ogystal â dangos achosiaeth yn cyfyngu'n rhannol o leiaf ar ddeall effaith hirdymor y Gronfa Iach ac Egnïol. Cyfyngir ar ymgeisiau i wneud hyn gan gost ymchwil sy'n gallu bod yn gymesur â maint y buddsoddiad mewn rhai o'r prosiectau a gefnogir gan y Gronfa.

34 Bu llawer o ymchwil a dadlau ynglŷn ag effeithiolrwydd cymorth gan y Llywodraeth i ofal plant ar gyfer rhieni sy'n gweithio ledled y DU. Yng Nghymru, fe wnaeth adroddiad gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru fodelu effaith polisïau gofal plant[26]. Ochr yn ochr â'i chynnig, fe gomisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiadau o bob un o dair blynedd gyntaf y cynnig. Mae'n bwriadu comisiynu adolygiad hwy a fydd yn dechrau ym mis Medi 2020. Mae'r gwerthusiad o'r flwyddyn gyntaf (Medi 2017 – Medi 2018) wedi darparu peth tystiolaeth gynnar bod cynnig gofal plant a gyllidir gan y Llywodraeth wedi arwain at effaith gadarnhaol, ond nid arwyddocaol, ar gyflogaeth rhieni. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o flwyddyn 1 bod rhieni, yn enwedig mamau, yn ailymuno â'r farchnad lafur o ganlyniad i'r cynnig. Bydd y gwerthusiad yn dychwelyd at y mater allweddol hwn ond byddai tystiolaeth o effaith y cynnig ar gyfer plant – megis gwella parodrwydd ar gyfer yr ysgol – yn cael ei hystyried gan adolygiad mwy hirdymor.

## Roedd gwaith ar draws y Llywodraeth wedi'i integreiddio i helpu i gyflawni ei hamcanion llesiant

35 Datganodd Llywodraeth Cymru yn glir sut y mae pob cam yn cyfrannu at ei hamcanion llesant yn ei thyb hi. Canfuom fod swyddogion wedi ystyried effaith y cam ar feysydd polisi eraill yn Llywodraeth Cymru, er enghraifft mewn prentisiaethau, mae swyddogion wedi gweithio gyda rhannau eraill o'r Llywodraeth i ddatblygu prentisiaethau i arfogi pobl â'r sgiliau i gyflawni amcanion eraill (er enghraifft, fframweithiau prentisiaeth newydd ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol

---

[24] Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Pobl Ifanc Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth Na Hyfforddiant**, Gorffennaf 2014 para 3.3-3.10

[25] Llywodraeth Cymru/Ystadegau ar gyfer Cymru **Mesurau Deilliant Dysgwyr ar gyfer Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig-ar-waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned: 2017/18**, SFR 07/2019 Chwefror 2019. Rhaid i ddysgwyr ar raglenni prentisiaeth ennill ystod o gymwysterau er mwyn cyflawni'r 'fframwaith' prentisiaeth llawn

[26] Gillian Paull a Xiaowei Xu, **Childcare Policy Options for Wales**, Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru, Rhagfyr 2015

ac ar gyfer y sector gofal plant). Mae'r cynnig gofal plant yn amlwg yn cefnogi camau eraill a nodir yn 'Ffyniant i Bawb'.

36 Mae Llywodraeth Cymru wedi egluro sut y mae'r Gronfa Iach ac Egnïol yn cyfrannu at gyflawni ei hamcan llesiant, 'hybu iechyd a llesiant da i bawb'. Mae'n credu bod y gronfa hon yn rhan o faes gwaith eang, sef 'presgripsiynu cymdeithasol', sy'n cwmpasu ymyriadau i gefnogi llesiant a helpu i reoli'r galw am ofal iechyd. Dros y misoedd diwethaf, mae swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru, GIG Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n rhan o fentrau presgripsiynu cymdeithasol wedi gweithio i ddatblygu dull sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth ac yn fwy integredig o fynd ar drywydd 'presgripsiynu cymdeithasol'. Mae'r grŵp hwn wedi adnabod dull rhaglen o ddeall yr ystod o fentrau sydd ar y gweill. Mae'r Gronfa'n cyfrannu at thema 4 yn y rhaglen 'presgripsiynu cymdeithasol', sef 'datblygu a chryfhau asedau cymunedol'.

37 Wrth archwilio'r strategaeth prentisiaethau a chynnig gofal plant Llywodraeth Cymru, canfuom fod risgiau o ganlyniadau anfwriadol oherwydd effaith polisi Llywodraeth y DU. Er enghraifft, fe wnaeth Llywodraeth y DU gyhoeddi'r Ardoll Brentisiaethau[27] yn 2015, yn ystod y cyfnod yr oedd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ei Strategaeth Brentisiaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn cael cyfran o dderbyniadau'r ardoll sy'n seiliedig ar y boblogaeth ers iddi ddod yn weithredol yn 2017. Roedd hyn yn gyfanswm o £138 miliwn yn 2018-19. O'i gyferbynnu â Lloegr a'r Alban, ar gyfer Cymru, mae cyflogwyr sy'n talu'r ardoll yn cael mynediad at gyllid prentisiaethau yn yr un ffordd â'r rhai nad ydynt yn talu'r ardoll. Fe wnaeth tystiolaeth i'w Ymchwiliad yn 2018 beri i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ddod i'r casgliad bod yr Ardoll wedi annog nifer cynyddol o gyflogwyr i chwilio am adenillion ar eu taliad[28] gyda hynny o bosibl yn disodli cyflogwyr eraill a fyddai wedi cael budd o gymorth gyda phrentisiaethau. Byddai dealltwriaeth well am effaith yr Ardoll ar ymddygiad ac agweddau cyflogwyr tuag at brentisiaethau yn helpu i osgoi effaith hirdymor niweidiol o bosibl ar nodau polisi Llywodraeth Cymru yn ogystal â sicrhau gwerth am arian.

38 Mae'r cynnig gofal plant ar gael i rieni sy'n gweithio sy'n bodloni meini prawf cymhwystra Llywodraeth Cymru. Canfu'r adroddiad ar flwyddyn gyntaf y cynnig fod rhai rhieni'n ei chael yn anodd gweld sut yr oedd y cynnig yn cyd-fynd â chymorth arall gyda chostau gofal plant sydd ar gael trwy'r system treth a budd-daliadau i rieni sy'n gweithio[29]. Nid oedd rhai'n manteisio ar y cynnig am eu bod o'r farn y byddent yn well eu byd pe na bai eu credydau treth gwaith yn newid[30]. Mae angen

[27] Telir yr Ardoll Brentisiaethau gan gyflogwyr â bil cyflogau o fwy na £3 miliwn. Mae'n cynrychioli tri y cant o'u bil cyflogau.

[28] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Yr Ardoll Brentisiaethau: Flwyddyn yn ddiweddarach**, Awst 2018, Casgliad 15

[29] Mae amrywiaeth o gymorth gyda chostau gofal plant ar gael i rieni sy'n gweithio ac sy'n cwrdd â meini prawf amrywiol gan gynnwys incwm, oriau a weithir ac oedran a nifer y plant: credyd treth gwaith a chredyd treth plant, yr elfen gofal plant o gredyd cynhwysol, gofal plant di-dreth a thalebau gofal plant.

[30] Mae credydau treth gwaith yn cael eu disodli gan gredyd cynhwysol. Bwriad Llywodraeth y DU yw y bydd pawb yn cael credyd cynhwysol erbyn 2023. Mae'r ddau'n

mwy o eglurder ynghylch y cydadwaith rhwng y cynnig a'r system treth a budd-daliadau fel bod rhieni'n gallu gwneud y penderfyniad cywir ar gyfer eu hamgylchiadau. Byddai hyn hefyd yn lleihau unrhyw risg bosibl bod y cynnig yn disodli cymorth arall sydd ar gael i rieni, risg a amlygwyd mewn ymchwil yn 2015.

## Fe gydweithiodd Llywodraeth Cymru yn agos gyda phartneriaid i gyflawni'r camau er ein bod wedi adnabod cyfleoedd pellach

39 Yn y tri cham a archwiliwyd gennym, roedd tystiolaeth glir bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio gydag eraill i ddylunio a chyflawni polisi i gyflawni ei hamcanion llesiant. Er enghraifft, canfu ein hadolygiad o brentisiaethau fod yr hanes hir o ddarparu prentisiaethau'n golygu bod gan swyddogion wybodaeth dda am y partneriaid a oedd yn rhan o hynny. Er mai Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r polisi ac yn darparu'r arian, mae swyddogion yn cydnabod mai un o bedwar partner hanfodol yw Llywodraeth Cymru, ynghyd â chyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a Gyrfa Cymru. Gwnaeth darparwyr hyfforddiant sylwadau ffafriol am y berthynas agored a oedd ganddynt â swyddogion er bod yr holl bartïon yn cydnabod bod y perthnasoedd â Llywodraeth Cymru yn ogystal â rhannu arfer da yn cael eu cymhlethu gan y broses dendro gystadleuol ar gyfer contractau hyfforddi.

40 I gyflawni'r cynnig gofal plant, bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydweithio gydag awdurdodau lleol, cynrychiolwyr darparwyr gofal plant a rhanddeiliaid gan gynnwys y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddeall y materion a oedd o bwys iddynt. Roedd y trafodaethau hyn yn cynnwys pennu lefel y taliadau. Mae partneriaid y siaradasom ni gyda hwy'n croesawu'r cydweithio hwn ac fe ddwedon nhw eu bod yn credu bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi eu gwybodaeth a'u profiad. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda rhai asiantaethau ac Is-adrannau sy'n rhoi cymorth i rieni gael gwaith megis y prosiect Gofal Plant a Chyflogadwyedd a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Fodd bynnag, mae swyddogion yn cydnabod y gallent wneud mwy gan gynnwys gydag Ardaloedd Canolfannau Gwaith[31] a chymorth Llywodraeth Cymru gyda gofal plant ar gyfer rhieni mewn addysg uwch neu bellach.

41 I ddatblygu'r Gronfa Iach ac Egnïol, bu Llywodraeth Cymru yn cydweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd â mwy o ddealltwriaeth am y cyswllt rhwng

---

cynnwys elfen o gymorth gyda chostau gofal plant ac ar adeg ysgrifennu, byddai newid trefniadau gofal plant yn debygol o gael ei ystyried yn newid mewn amgylchiadau a oedd yn golygu ei bod yn ofynnol i unigolyn ddechrau hawlio credyd cynhwysol yn lle credydau treth gwaith.

[31] Fe wnaeth Llywodraeth y DU gyflwyno'r Gronfa Cymorth Hyblyg yn 2011. Ei nod oedd rhoi mwy o ryddid i Ardaloedd Canolfannau Byd Gwaith deilwra cymorth dychwelyd i'r gwaith i anghenion unigol a lleol. Nid oes rhestr gynhwysfawr o'r anghenion y gall y Gronfa Cymorth Hyblyg eu diwallu ond gallant gynnwys hyfforddiant ar gyfer swydd, teithio i gyfweliadau, gofal plant, offer ar gyfer gwaith, cost tystiolaeth feddygol y mae'n ofynnol i berson anabl ei darparu a dillad/iwnifform i ddechrau gweithio.

gweithgarwch corfforol ac iechyd yn ogystal â Chwaraeon Cymru sydd â gwybodaeth am ddatblygu mentrau ar lefel gymunedol a'r hyn sy'n gweithio i gynyddu gweithgarwch corfforol a phrofiad o wneud hynny hefyd. Mae Chwaraeon Cymru yn cyfrannu £1.9 miliwn o'r gyllideb o £5.4 miliwn. Bu swyddogion o'r tri sefydliad yn cydweithio'n agos iawn, gan roi cyflwyniadau ar y cyd i ddarpar ymgeiswyr yn ogystal ag asesu a monitro cynigion. Mae bwriad i ystyried effaith y cydweithio hwn wrth werthuso'r Gronfa.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys amryw randdeiliaid ond nid yw wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â dinasyddion ym mhob achos

42 Canfuom dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu pob un o'r camau a adolygwyd gennym. Mewn prentisiaethau, roedd ymgynghoriad eang cyn cyhoeddi Strategaeth y Llywodraeth yn 2017. Cynhaliodd ymarfer ymgynghori pwrpasol gyda phobl ifanc bryd hynny a chyda grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl cyn cyhoeddi Prentisiaethau Cynhwysol: Cynllun Gweithredu ar Anabledd yn 2018. Wrth ddatblygu ei chynnig gofal plant, fe sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp llywio ac fe gynhaliodd weithdai gyda chyfranogwyr o adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru yn ogystal ag o lywodraeth leol, darparwyr a grwpiau cynrychiadol. Fe ymgysylltodd â 6,500 o rieni trwy ei hymgyrch 'Dweud Eich Dweud ar Ofal Plant'. Dangosodd ei bod wedi ymateb i faterion a phryderon a godwyd gan y rhanddeiliaid hyn. Yn y Gronfa Iach ac Egnïol, fe wnaeth Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ddiwygio'r broses a'r deunyddiau ymgeisio yn dilyn adborth gan gyfranogwyr yn ei gweithdai gwybodaeth cychwynnol.

43 Mae gan Lywodraeth Cymru rôl i gynorthwyo ei 'hasiantau' i ymgysylltu â dinasyddion a'u cynnwys. Fodd bynnag, mewn dau o'r camau a adolygwyd gennym, ni wnaeth ymgysylltu â dinasyddion yn uniongyrchol:

a) prentisiaethau – er bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr hyfforddiant (sefydliadau addysg bellach a chwmnïau hyfforddi preifat) geisio adborth gan brentisiaid fel rhan o reoli perfformiad, nid yw'n cael unrhyw adborth uniongyrchol. Mae'n ymgysylltu â chyflogwyr trwy'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Bwrdd Cynghori Cymru ar Brentisiaethau er bod cyfleoedd i wella'r modd y caiff cyflogwyr bach a chanolig a microfusnesau eu cynnwys. Nid oes fforwm tebyg i ymgysylltu'n uniongyrchol â phrentisiaid. Er enghraifft, yn Lloegr, mae gan y Sefydliad Prentisiaethau sy'n datblygu ac yn cynnal safonau a chynlluniau asesu prentisiaethau Banel Prentisiaid sy'n adrodd yn uniongyrchol wrth y Bwrdd. Mae'r Panel yn cynnwys 26 o brentisiaid o wahanol alwedigaethau a phrofiadau. Ei ddiben yw sicrhau bod barn prentisiaid yn cael ei chynrychioli ar draws gwaith a threfniadau llywodraethu'r Sefydliad.

b) Y Gronfa Iach ac Egnïol – fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymgorffori cynnwys cymunedau fel rhan o'i meini prawf ar gyfer gwerthuso ceisiadau

am gyllid. Fodd bynnag, nid yw'r cyhoedd ehangach wedi cael ei gynnwys yn y Gronfa hyd yn hyn. Er nad ydym wedi gweld tystiolaeth bod hyn yn angenrheidiol, fe wnaeth aelodau bwrdd y prosiect fyfyrio yn ein gweithdy i ba raddau yr oeddent wedi cynnwys y cyhoedd yn y gwaith o ddatblygu'r Gronfa. Mae'r holl brosiectau a gefnogir gan y Gronfa wedi'u lleoli yn y gymuned er bod cymunedau wedi'u cynnwys i raddau amrywiol yn y broses o ddylunio neu gyflawni'r prosiectau. Rydym ni'n credu y byddai o fudd pe bai'r gwerthusiad yn archwilio effaith cynnwys cymunedau mewn prosiectau er enghraifft ar ddeilliannau i unigolion neu barhad prosiectau pan fo'r cyllid yn dod i ben.

44 Mae'r sylwadau hyn yn codi cwestiynau diddorol wrth ystyried a all neu a ddylai Llywodraeth Cymru gynnwys dinasyddion yn uniongyrchol wrth drefnu'r hyn a wna ynteu a fyddai'n well bod y ddyletswydd hon yn cael ei chyflawni trwy ei phartneriaid darparu. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod ei His-adrannau Dyfodol a Llunio Polisi mewn Modd Integredig a Datblygu Sefydliadol yn ystyried modelau effeithiol ar gyfer cynnwys dinasyddion gan lywodraeth genedlaethol ac yn datblygu pecyn cymorth i gefnogi'r gwaith hwn. Rhaid i unrhyw fodel a ddatblygir ystyried rolau gwahanol Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Cynulliad a gweision sifil. Mae sylwebyddion wedi pwysleisio ei bod yn bwysig bod yn glir pam y mae llywodraeth genedlaethol yn cynnwys dinasyddion: i ddefnyddio'u gwybodaeth leol am wahanol anghenion a chanfyddiadau; i gasglu barn a phrofiadau i wella gwasanaethau; neu i gynnwys dinasyddion yn uniongyrchol mewn prosesau penderfynu[32].

[32] Mae rhai o'r materion hyn yn cael eu trafod a'u profi ar hyn o bryd trwy'r rhaglen Arloesi mewn Democratiaeth a lansiwyd ym mis Awst 2018 fel rhan o Strategaeth Cymdeithas Sifil Llywodraeth y DU. Mae'n treialu'r arfer o gynnwys dinasyddion mewn prosesau penderfynu ar lefel llywodraeth leol trwy fodelau democratiaeth gydgynghorol (megis paneli dinasyddion) mewn tri chyngor. Fe dreialodd y Cynulliad Cenedlaethol ei gynulliad dinasyddion cyntaf ym mis Gorffennaf 2019 fel rhan o'i rhaglen 'Datganoli 20'.

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o’r Pum Ffordd o Weithio

Mae’r tabl isod yn nodi ‘dangosyddion cadarnhaol’ ar gyfer pob un o’r pum ffordd o weithio yr ydym wedi’u hadnabod ac y byddwn yn eu defnyddio i helpu i oleuo ein hasesiadau i ganfod i ba raddau y gall cyrff fod yn cymhwyso’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (EDC). Nid ydym yn bwriadu defnyddio’r dangosyddion fel ‘rhestr wirio’. Dylid eu hystyried yn ddangosyddion a fydd yn ein helpu i ddod i gasgliadau, yn hytrach nag yn ‘benderfynyddion’ sy’n dynodi i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â’r EDC wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 4: dangosyddion cadarnhaol o’r pum ffordd o weithio

| **Dangosyddion Cadarnhaol o’r Pum Ffordd o Weithio** |
|---|
| **Beth fyddai’n dangos bod corff yn cymhwyso’r ffordd o weithio hirdymor yn llawn?** |
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae ‘hirdymor’ yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio’r cam i gyflawni’r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio’r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a’r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio’r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau’r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi’u nodi lle bydd deilliannau’n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai’n dangos bod corff yn cymhwyso’r ffordd o weithio ataliol yn llawn?** |
| • Mae’r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i’r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy’n pontio’r cenedlaethau.<br>• Mae’r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi’r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae’r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy’n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy’n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.<br>• Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

# Atodiad 2

## Darparu 100,000 o brentisiaethau newydd yn nhymor y Cynulliad yn 2016-2021

### Cefndir

1 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod prentisiaethau'n ffactor allweddol sy'n cyfrannu at lwyddiant economaidd ac at greu Cymru gryfach, fwy teg a mwy cyfartal. Mae prentisiaethau'n fath o hyfforddiant sydd wedi hen ennill ei blwyf ac maent wedi bod yn cael eu cefnogi gan lywodraethau ers y 1960au. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth newydd ar gyfer prentisiaethau bob oed o ansawdd da[33].

2 Mae prentisiaethau'n cyfuno profiad yn y gweithle a hyfforddiant oddi ar y safle. Mae prentisiaid yn dilyn un o 19 o fframweithiau sector[34] a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ac a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru. Mae tair lefel:

a) Prentisiaeth Sylfaen – lefel 2 (sy'n gyfwerth â 5 TGAU gradd A*-C);

b) Prentisiaeth – lefel 3 (sy'n gyfwerth â llwyddo mewn 2 Safon Uwch); ac

c) Prentisiaethau Uwch – Lefel 4+ (sy'n gyfwerth fwy neu lai â Gradd Sylfaen ac uwch).

3 Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed i ddarparu 100,000 o brentisiaethau newydd o ansawdd da yn nhymor y Cynulliad hwn. Mae ar y trywydd cywir i gyrraedd y targed hwn ac fe allai fynd y tu hwnt iddo gyda 69,645 o brentisiaethau newydd erbyn mis Awst 2019. Mae cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer prentisiaethau'n £116 miliwn yn 2018-19. Mae hyn yn cynnwys arian a geisiwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (£33 miliwn yn 2018-19).

4 Mae prentisiaethau'n faes polisi datganoledig. Dros y blynyddoedd diwethaf bu ymwahanu cynyddol o ran y dull a ddefnyddir gan y pedair gwlad. Er enghraifft, arferai fframweithiau prentisiaeth fodoli dros y DU gyfan ond mae'r Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau (ESFA) yn symud i ffwrdd oddi wrth fframweithiau prentisiaeth at safonau prentisiaeth a ddatblygwyd gan grwpiau dan arweiniad cyflogwyr.

5 Daeth Ardoll Brentisiaethau Llywodraeth y DU i rym yn 2017. Mae cyflogwyr â bil cyflogau uwch na £3 miliwn y flwyddyn yn talu 0.5% o'u bil cyflogau. Er bod yr Ardoll Brentisiaethau'n gyfundrefn ar draws y DU gyfan, mae gan wledydd y DU drefniadau gweinyddol gwahanol ar gyfer cyllido prentisiaethau a hyfforddiant sgiliau o fath arall. Mae Llywodraeth Cymru yn cael cyfran seiliedig-ar-y-boblogaeth o'r Ardoll (£138 miliwn yn 2019-20). Nid yw'r cyllid hwn wedi'i neilltuo.

---

[33] Llywodraeth Cymru, **Cysoni'r model Prentisiaethau ag anghenion economi Cymru**, Chwefror 2017

[34] Fframwaith prentisiaeth yw'r cwricwlwm lefel uchel o ddysgu a chymwysterau mewn sgil, crefft neu alwedigaeth benodol y dylai prentis ei gyflawni er mwyn bod yn gymwys i gael tystysgrif prentisiaeth.

Mae wedi parhau i gyflawni ei Rhaglen Brentisiaethau trwy rwydwaith darparwyr prentisiaethau Cymru.

## Hirdymor: Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu golwg hirdymor yn seiliedig ar ei dealltwriaeth am ofynion a thueddiadau economaidd yn y dyfodol a bydd yn parhau i fod ag angen am wybodaeth dda a bod yn glir ynglŷn â chostau cefnogi prentisiaethau

6 Canfuom y cryfderau canlynol:

a) mae'r polisi'n ystyried gwybodaeth am dueddiadau cyflogaeth, sgiliau ac economaidd hirdymor yn adroddiad 'Tueddiadau'r Dyfodol' Llywodraeth Cymru yn ogystal â gwybodaeth gan gyflogwyr trwy'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol y mae'n eu hariannu.

b) trwy gymryd camau i gynyddu cyfran y prentisiaethau newydd mewn meysydd blaenoriaeth ar gyfer yr economi a phrentisiaethau uwch, mae polisi Llywodraeth Cymru wedi'i fwriadu i ddiwallu anghenion hirdymor cyflogwyr. Mae hefyd yn cynorthwyo unigolion i ennill y lefel uchel o sgiliau y rhagwelir y bydd eu hangen arnynt yn y dyfodol. Yn 2017-18 roedd 58% o brentisiaethau newydd (13,125) ar lefel 3 neu uwch o'i gymharu â 46% yn 2012.

c) mae'r dull 'pob oed' yn rhoi cymorth i bobl uwchsgilio neu gadw sgiliau trwy gydol eu bywydau gwaith. Yn 2017-18, roedd 62% o'r bobl a ddechreuodd brentisiaethau dros 25 oed o'i gymharu â 53% yn 2011-12. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n dechrau prentisiaethau, er enghraifft trwy ei rhaglen 'Rho Gynnig Arni' i ddisgyblion ym mlwyddyn 9 a 10. Mae'r Cymhelliad i Gyflogwyr Gynnal Prentisiaethau ar gyfer Busnesau Bach yn darparu cyllid ar gyfer mentrau bach a chanolig sy'n cyflogi hyd at dri phrentis 16-19 oed.

d) mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod prentisiaethau'n adlewyrchu safonau cyfredol y diwydiant trwy weithio gyda chyflogwyr i ddatblygu fframweithiau prentisiaeth newydd. Mae'r rhain yn cynnwys sgiliau sylfaenol yn ogystal â chymwysterau galwedigaethol. Ei nod yw creu cymwysterau ehangach, mwy cludadwy na'r rhai a ddatblygwyd gan gyflogwyr.

e) yn y tymor byr a chanolig, fe ymatebodd Llywodraeth Cymru i ansicrwydd ynghylch cyllid trwy sicrhau rhanddeiliaid bod cyllid (gan gynnwys £70 miliwn o gronfeydd yr UE) wedi'i ddiogelu tan 2020.

7 Canfuom y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

a) **sicrhau bod cyllid yn gynaliadwy yn y tymor hir**. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y gallai'r galw cynyddol am brentisiaethau ei gwneud yn ofynnol iddi wneud penderfyniadau anodd am gyllido rhai sectorau/lefelau. Er enghraifft, gall y costau uwch o'i gymharu â

phrentisiaethau sylfaen wneud ei nod i gynyddu prentisiaethau lefel uwch yn anghynaliadwy yn y tymor hir heb naill ai mwy o gyllid neu leihau nifer y prentisiaethau newydd. Caiff y risg ei chynyddu oherwydd cost prentisiaethau mewn sectorau sy'n flaenoriaeth megis gweithgynhyrchu, peirianneg a gwasanaethau rheoli a phroffesiynol. Mae costau hyfforddi yn y meysydd hyn yn tueddu i fod yn ddrutach nag ym maes gweinyddu busnes neu wallt a harddwch sy'n hanesyddol wedi bod yn gyfran fawr o brentisiaethau.

b) **deall costau i gyflogwyr**. Mae cyflogwyr yn dweud eu bod yn wynebu costau o ganlyniad i gyflogi prentisiaid sy'n ychwanegol at gyflog a chost hyfforddi a delir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys costau uniongyrchol megis goruchwylio yn y gweithle a chostau anuniongyrchol megis cynhyrchiant is, yn enwedig ar y dechrau. Byddai deall costau llawn cyflogi prentis i gyflogwyr yn darparu gwybodaeth well i oleuo penderfyniadau am gymorth yn y dyfodol a chapasiti cyflogwyr i gynnal mwy o brentisiaid.

## Atal: Mae prentisiaethau'n canolbwyntio'n fwyfwy ar sgiliau uwch a meysydd sy'n flaenoriaeth i economi Cymru ond mae diffyg tystiolaeth o ddeilliannau hirdymor yn golygu ei bod yn anodd barnu ynglŷn â'u heffeithiolrwydd

8 Canfuom y cryfderau canlynol:

a) mae prentisiaethau'n cynorthwyo unigolion o bob oed i ennill y sgiliau y mae eu hangen arnynt i ymuno â'r farchnad lafur a chamu ymlaen at waith â sgiliau uwch. Yn 2017-18, roedd bron i ddwy ran o dair (62%) o'r prentisiaid yn 25 oed neu drosodd. Mae'r dull hwn yn helpu i fynd i'r afael â diweithdra hirdymor ymhlith cyflogeion hŷn[35] trwy ddarparu cyfleoedd i uwchsgilio neu ailhyfforddi mewn meysydd newydd ac addasu i newidiadau yn yr economi a'r farchnad waith.

b) mae polisi wedi canolbwyntio ar ddatblygu fframweithiau cymwysterau safonedig a chynnwys gofynion o ran sgiliau sylfaenol. Mae hyn yn sicrhau bod prentisiaid yn ennill sgiliau a chymwysterau cludadwy. Mae hyn yn wahanol i'r dull yn Lloegr lle mae cyflogwyr yn datblygu prentisiaethau sydd wedi'u teilwra'n fwy i'w gofynion penodol hwy nad ydynt o anghenraid yn cael eu cydnabod yn eang nac yn gludadwy.

c) mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gynyddu nifer ac amrywiaeth y prentisiaethau a chynyddu amrywiaeth ymhlith prentisiaid. Mae'n darparu 'cymhelliad cyflogwr' ar gyfer cyflogwyr nad ydynt wedi cyflogi prentisiaid yn flaenorol (neu ddim o fewn y 3 blynedd ddiwethaf) i gyflogi prentisiaid newydd. Yn 2017-18 cafodd 523 o gyflogwyr gymelldaliad (ar

---

[35] Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Cyfleoedd Cyflogaeth i Bobl Dros 50**, Gorffennaf 2015

gyfer 552 o ddysgwyr). Yn 2017-18, roedd tri y cant o'r bobl a ddechreuodd brentisiaethau o gymunedau pobl dduon neu leiafrifoedd ethnig. Defnyddiodd wybodaeth o adroddiadau gan Estyn[36] a Chomisiynydd y Gymraeg[37] i archwilio rhwystrau i ddechrau prentisiaethau ar gyfer rhai grwpiau o bobl.

d) mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gynyddu dealltwriaeth am ddeilliannau: dylai data ar gyrchfannau tymor hwy mewn perthynas â phrentisiaid fod ar gael o 2020.

e) mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr heriau i weithwyr â sgiliau isel yn y dyfodol; mae ei pholisi wedi'i fwriadu i godi sgiliau trwy gynyddu nifer y prentisiaethau ar lefel 3 ac uwch. Gall prentisiaethau ddechrau ar lefel is os oes posibilrwydd o symud ymlaen at lefel 3.

9 Canfuom y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

a) **deall effaith prentisiaethau ar yrfaoedd ac enillion**. Dylai data ar gyrchfannau prentisiaethau fod ar gael yn 2020. Ar hyn o bryd ychydig o ymchwil sydd i'r deilliannau hirdymor ar gyfer pobl sy'n cwblhau gwahanol fathau o brentisiaethau o ran datblygiad gyrfa neu gyflog. Yn rhannol, y rheswm dros hyn yw ei bod yn anodd tracio cynnydd prentisiaid dros amser. Yn gynyddol, mae gwahaniaethau mewn prentisiaethau ledled y DU ac mewn gwledydd eraill yn golygu ei bod yn anodd cyffredinoli o ymchwil a gwblhawyd mewn gwledydd eraill. Byddai ymchwil i ddeilliannau hirdymor ar gyfer pobl sy'n cwblhau prentisiaethau o ran eu gyrfaoedd a'u henillion wedi hynny'n ei gwneud yn bosibl ffurfio barn fwy penodol a seiliedig-ar-dystiolaeth ynglŷn â'u gwerth i'r Llywodraeth, cyflogwyr a darpar brentisiaid.

b) **cynyddu nifer y prentisiaethau a ddarperir ar gyfer recriwtiaid newydd yn hytrach na chyflogeion presennol i gynyddu sgiliau**. Amcangyfrifwyd fod mwy na hanner y prentisiaid eisoes yn gweithio i'w cyflogwr pan ydynt yn dechrau prentisiaeth. Er bod rhai manteision os ydynt yn gallu achredu sgiliau presennol, nid yw'n glir a ydynt yn dysgu sgiliau newydd. Mae hyn yn codi risg bosibl o werth gwael am arian os yw cyllid prentisiaeth yn ei galluogi i achredu sgiliau presennol yn hytrach nag ennill sgiliau newydd.

c) **deall effaith yr Ardoll Brentisiaethau ar gyflogwyr yng Nghymru i sicrhau bod buddsoddiadau gan y Llywodraeth yn cyflawni gwerth am arian**. Clywodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau dystiolaeth yn ei Ymchwiliad i'r Ardoll Brentisiaethau bod yr Ardoll yn annog cyflogwyr mawr i ddatblygu prentisiaethau, y gwnaeth rhai ohonynt

---

[36] Estyn, **Rhwystrau rhag prentisiaeth: Anawsterau a wynebir gan ddysgwyr o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r rheini ag anableddau wrth ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth**, Tachwedd 2014

[37] Comisiynydd y Gymraeg, **Sefyllfa'r Gymraeg mewn rhaglenni prentisiaeth yng Nghymru**, Tachwedd 2017

ddisodli hyfforddiant presennol. Mae risg bosibl i werth am arian os yw prentisiaethau'n disodli hyfforddiant a fyddai wedi digwydd fel arall. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddeall effaith yr Ardoll ar ymddygiad cyflogwyr a'u hagweddau tuag at brentisiaethau i osgoi effaith niweidiol ar ei nodau polisi yn ogystal â sicrhau gwerth am arian.

## Integreiddio: Mae'r polisi prentisiaethau wedi'i integreiddio'n glir â'r amcanion llesiant er y gall fod cyfleoedd i ategu mwy o amcanion llesiant

10 Canfuom y cryfderau canlynol:

a) dangosodd swyddogion eu bod yn deall yn glir sut y mae'r polisi prentisiaethau'n cyfrannu at gyflawni amcanion llesiant Llywodraeth Cymru y tu hwnt i gyflawni'r cam ei hun. Mae Strategaeth Prentisiaethau 2017 yn nodi sut y mae'r polisi'n cefnogi'r amcanion llesiant yn nhyb y Llywodraeth a sut y mae'n bwriadu cymhwyso'r Pum Ffordd o Weithio.

b) mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda'r rhai mewn rhannau eraill o Lywodraeth Cymru (e.e. GIG Cymru, gofal plant) a'r tu allan iddi (e.e. Addysg a Gwella Iechyd Cymru) i'w helpu i gyflawni eu cyfraniad tuag at y nodau llesiant cenedlaethol.

c) o fewn addysg ôl-orfodol, caiff integreiddio ei wneud yn haws am bod prentisiaethau'n eistedd gydag addysg bellach yn y strwythur sefydliadol.

11 Canfuom y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

a) **gall fod cyfleoedd pellach i roi cymorth i gyflawni amcanion llesiant eraill**. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gynyddu'r nifer sy'n ymgymryd â phrentisiaethau a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg ac argaeledd y rhain. Bydd camau i gynyddu'r nifer sy'n ymgymryd â phrentisiaethau o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac o blith pobl ag anableddau yn ei helpu i gyflawni amcan llesiant arall, 'datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth'.

b) **deall effaith ymrwymiadau newydd y Llywodraeth ar gynlluniau a'r gyllideb ar gyfer prentisiaethau –** Gall ymrwymiadau newydd gan y Llywodraeth (er enghraifft, y cynnig gofal plant i Gymru) yn ogystal â phrosiectau seilwaith (e.e. Metro De Cymru) gael effeithiau arwyddocaol ar dybiaethau Llywodraeth Cymru ynglŷn â nifer y prentisiaethau, y math o brentisiaethau a chostau prentisiaethau y mae eu hangen yn y tymor byr, canolig a hir. Yn gynyddol, bydd gweithio integredig ar draws Llywodraeth Cymru yn helpu i ragweld a rheoli'r effeithiau hynny.

## Cydweithio: Mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio gydag eraill i ddylunio a darparu prentisiaethau ac mae'n datblygu partneriaethau newydd

12 Canfuom y cryfderau canlynol:

a) mae Llywodraeth Cymru yn hystyried ei bod mewn partneriaeth pedair ffordd gyda chyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a chyrff cefnogol megis Gyrfa Cymru a Cymwysterau Cymru i ddarparu prentisiaethau. Ceir diwylliant o fod yn agored a gefnogir gan berthnasoedd sefydledig mewn grŵp cymharol sefydlog o swyddogion a darparwyr. Mae swyddogion yn amlwg yn deall ac yn cydnabod rolau a chyfrifoldebau partneriaid eraill i ddarparu prentisiaethau. Ceir perthnasoedd hirsefydlog gyda darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr a Gyrfa Cymru. Gwnaeth partneriaid sylwadau ffafriol am wybodaeth ac ymrwymiad swyddogion.

b) mae Llywodraeth Cymru yn datblygu perthnasoedd gyda phartneriaid newydd, er enghraifft gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar fframweithiau prentisiaeth gofal iechyd newydd a chyda Cymwysterau Cymru

c) mae Llywodraeth Cymru yn rhannu gwybodaeth yn agored gyda darparwyr hyfforddiant, er enghraifft mae cynrychiolwyr partneriaid yn mynychu cyfarfodydd tîm rheolaidd. Mae cydweithio gyda phartneriaid hyfforddi wedi cael ei gynorthwyo gan y gostyngiad yn nifer y contractwyr haen 1 i 19 yn y cylch caffael diwethaf.

d) mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu rhwydweithiau i ddarparwyr hyfforddiant rannu arfer da. Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd i ddysgu er bod yr holl bartneriaid yn cydnabod bod y dull caffael cyfredol yn rhwystr posibl i gydweithio a dysgu ar y cyd.

e) mae Llywodraeth Cymru wedi cyllido swyddi yn Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru i gefnogi darparwyr mewn meysydd y mae angen gwella ynddynt, er enghraifft hyrwyddwyr dwyieithrwydd a chydraddoldeb.

f) mae swyddogion yn cydnabod bod polisi prentisiaethau'n ymwahanu'n fwyfwy ledled y DU. Maent yn cyfranogi mewn rhwydweithiau gyda chydweithwyr o rannau eraill o'r DU (er enghraifft, Grŵp Prentisiaethau'r Pedair Gwlad).

13 Canfuom y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

a) **cynyddu cyflymder yr adolygiadau sector o gymwysterau.** Ers 2015, Cymwysterau Cymru yw'r corff sy'n rheoleiddio safonau prentisiaethau. Er bod yr adolygiadau sector o gymwysterau wedi cael eu croesawu'n eang, mae pryder ynghylch eu cyflymder a berodd i rai cyfweleion gwestiynu a ddylid trefnu bod rhagor o adnoddau ar gael i'w gwneud yn bosibl eu cwblhau'n gynt.

b) **gall fod cyfle i gydweithio'n fwy ar raglenni i annog menywod i gyfranogi yn y sector gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a gweithgynhyrchu (STEM).** Roedd nifer y menywod a'r dynion a ddechreuodd brentisiaethau'n gyfartal fwy neu lai yn 2017-18 ond ceir gwahaniaethau o ran y sectorau y maent yn hyfforddi ynddynt. Fe ddechreuodd pedair gwaith yn fwy o fenywod na dynion brentisiaethau

mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn 2017-18. I’r gwrthwyneb, fe ddechreuodd deg gwaith yn fwy o ddynion nag o fenywod brentisiaethau mewn peirianneg ac fe ddechreuodd mwy nag ugain gwaith yn fwy o ddynion nag o fenywod brentisiaethau adeiladu[38].

## Cynnwys: Fe ymgynghorodd Llywodraeth Cymru yn eang i ddatblygu ei pholisi ac mae’n cynyddu ei chysylltiadau â chyflogwyr mwy ond nid yw’n ymgysylltu â phrentisiaid yn uniongyrchol

14 Canfuom y cryfderau canlynol:

a) mae ei hanes o gyflawni polisi a chymorth ar gyfer prentisiaethau dros y blynyddoedd yn golygu bod gan Lywodraeth Cymru syniad clir pwy y mae angen iddi eu cynnwys wrth ddylunio a chyflawni polisi. Yn ystod ein gwaith ni, gwnaeth partneriaid hyfforddi a phobl sy’n gweithio mewn rhannau eraill o Lywodraeth Cymru sylwadau ffafriol am drefniadau gweithio agos i ddatblygu fframweithiau prentisiaeth newydd.

b) cynhaliwyd ymgynghoriad eang cyn cyhoeddi dogfen y Strategaeth Prentisiaethau yn 2017. Fe ymgynghorodd Llywodraeth Cymru â phobl ifanc cyn strategaeth 2017 ac â grwpiau sy’n cynrychioli pobl anabl cyn cyhoeddi ei Chynllun Gweithredu ar Anabledd ar gyfer Prentisiaethau 2018-21[39]. Mae grwpiau arbenigol sy’n cynrychioli pobl anabl yn dal i gael eu cynnwys yn y broses o oruchwylio’r cynllun gweithredu.

c) fe sefydlodd Llywodraeth Cymru Fwrdd Cynghori Cymru ar Bartneriaethau i gynnwys cyflogwyr a phartneriaid eraill mewn prosesau penderfynu.

d) mae Llywodraeth Cymru yn cyllido tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol sy’n ymgysylltu â chyflogwyr ac yn hysbysu ynghylch materion a gofynion yn y dyfodol.

15 Canfuom y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

a) **ymgysylltu â busnesau bach a chanolig (BBCh) a micro-gyflogwyr**. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn darparu gwybodaeth am gyfleoedd gwaith a bylchau o ran sgiliau yn y dyfodol ar gyfer Llywodraeth Cymru sydd o gymorth i gynllunio polisi. Fodd bynnag, clywsom fod BBChau yn ei chael yn anodd cyfranogi mewn Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Mae hyn yn arwain at ganfyddiad eu

---

[38] Dengys y ffigyrau diweddaraf ar gyfer 2017-18 fod 9,750 o fenywod wedi dechrau prentisiaethau mewn iechyd a gofal cymdeithasol o’i gymharu â 2,310 o ddynion yn 2017-18. Dechreuodd 2,390 o ddynion brentisiaethau mewn peirianneg o’i gymharu â 220 o fenywod a dechreuodd 2,330 o ddynion brentisiaethau adeiladu o’i gymharu â 110 o fenywod

[39] Llywodraeth Cymru, **Prentisiaethau Cynhwysol: Cynllun Gweithredu ar Anabledd ar gyfer Prentisiaethau 2018-21**, Rhagfyr 2018

bod yn cael eu dominyddu gan gyflogwyr mawr a chwmnïau angori. Fe wnaeth nifer o gyfranwyr i ymchwiliad cyfredol Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol y pwynt hwn hefyd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod anhawster ymgysylltu â BBChau. Mae'n monitro cyfran y prentisiaethau sydd mewn BBChau (52% o brentisiaethau yn 2017-18).

b) **cynnwys prentisiaid**. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw sianeli ar hyn o bryd ar gyfer cynnwys prentisiaid yn uniongyrchol yn y broses o gynllunio a datblygu polisi. Mae'n ofynnol i ddarparwyr geisio adborth gan brentisiaid sy'n cwblhau eu hyfforddiant ond nid oes cyfrwng i fynd ati'n rheolaidd i geisio'u barn ynglŷn â materion ehangach. Ceir enghreifftiau mewn gwledydd eraill o ddatblygu sianeli ymgysylltu (megis Paneli Prentisiaid) i alluogi prentisiaid i chwarae mwy o ran a bod â llais yn y broses o ddatblygu polisi.

c) **cyfleoedd i ennyn ymgysylltiad rhieni**. Cydnabyddir bod rhieni'n ddylanwad pwysig ar benderfyniadau pobl ifanc ynglŷn â hyfforddiant a chyflogaeth gan gynnwys prentisiaethau. Fodd bynnag, mae'r cyngor sydd ar gael yn rhwydd i rieni ar wefan Gyrfa Cymru yn hen ac mae'n bosibl nad yw'n adlewyrchu'r ffordd o feddwl ar hyn o bryd.

d) **ymgysylltu â'r gymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig**. Yn 2017-18 roedd 3 y cant o'r bobl a ddechreuodd brentisiaethau o'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Roedd 1.7 y cant o'r rhai a ddechreuodd brentisiaeth yn bobl anabl. Fe wnaeth adroddiad gan Estyn[40] nodi'r rhwystrau i ddechrau prentisiaethau ar gyfer pobl ifanc o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn ogystal â dysgwyr anabl. Fe wnaeth adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Cynulliad Cenedlaethol ar Brentisiaethau yng Nghymru[41] argymell datblygu cynllun gweithredu yn benodol ar gyfer pobl anabl. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hwn ym mis Rhagfyr 2018. Fodd bynnag, nid yw mor eglur pa gamau gweithredu sydd wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r diffyg cynrychiolaeth hwn o bobl o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig mewn prentisiaethau.

---

[40] Estyn, **Rhwystrau rhag prentisiaeth: Anawsterau a wynebir gan ddysgwyr o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r rheini ag anableddau wrth ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth**, Tachwedd 2014

[41] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Prentisiaethau yng Nghymru**, Chwefror 2018

# Atodiad 3

## Y Cynnig Gofal Plant i Gymru

### Cefndir

1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a gyllidir gan y Llywodraeth ar gyfer rhieni i blant 3 a 4 blwydd oed sy'n gweithio am 48 awr y flwyddyn (y cynnig).

2 Mae'r cynnig yn adeiladu ar y ddarpariaeth gyffredinol, sef isafswm o 10 awr o addysg gynnar ar gyfer plant 3 a 4 oed, a ddarperir trwy Ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen (DFyCS) o'r tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd nes eu bod yn dechrau addysg lawn-amser, fel arfer y mis Medi ar ôl iddynt droi'n 4. Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithredu dyddiadau dechrau gwahanol ar gyfer Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen. Mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn darparu mwy na 10 awr o Ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen yn ôl eu disgresiwn.

3 Mae gan blant i rieni cymwys sy'n gweithio hawl i oriau ychwanegol o ofal plant a gyllidir. Yn ystod y 39 wythnos mewn tymhorau ysgol, gallant gael mynediad at 30 awr o ddarpariaeth ar draws y ddwy elfen. Gallant hefyd gael 30 awr o ddarpariaeth gofal plant am 9 wythnos yn ystod y gwyliau ysgol. Gall darparwyr godi tâl am wasanaethau ychwanegol megis prydau bwyd, cludiant ac unrhyw oriau ychwanegol

4 Yn 2016, gofynnodd Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol fynegi diddordeb mewn gweithredu'r cynnig yn gyntaf. Cyfarfu â'r saith a ddewiswyd i fod yn weithredwyr cynnar rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Mehefin 2017 i bennu cwmpas y cynnig a'r trefniadau darparu. Dechreuodd brofi'r cynnig yn yr ardaloedd hynny ym mis Medi 2017. Roedd y cynnig ar gael ledled Cymru o fis Ebrill 2019. Mae'r gyllideb ar gyfer y cynnig gofal plant yn 2019-20 yn £40 miliwn.

## Hirdymor: Mae gan Lywodraeth Cymru syniad clir o'r anghenion y mae'n bwriadu i'r cynnig eu diwallu ond ar hyn o bryd cyfyngedig yw'r dystiolaeth bod gofal plant a gyllidir gan y Llywodraeth ar gyfer plant 3-4 oed yn cael effaith arwyddocaol ar lefelau cyflogaeth mamau.

5 Canfuom y cryfderau canlynol:

a) mae gan Lywodraeth Cymru syniad clir o'r anghenion y mae'n credu y bydd y cynnig yn eu diwallu.

b) dangosodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y cynnig yn gweithio mor dda ag y gall yn ymarferol. Mae hyn yn cynnwys dealltwriaeth dda am y sector gofal plant a'i anghenion a'i heriau a'r hyn y mae ar rieni ei eisiau a'i angen o ofal plant.

c) mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiadau blynyddol o dair blynedd gyntaf gweithredu'r cynnig. Dywedodd wrthym ei bod yn bwriadu comisiynu adolygiad tymor hwy o fis Medi 2020. Cafodd y gwerthusiad o'r flwyddyn gyntaf o weithredu cynnar[42] ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2018. Wedyn fe wnaeth Llywodraeth Cymru newidiadau i'r canllawiau darparu yn seiliedig ar ei chanfyddiadau ac adborth gan awdurdodau lleol, darparwyr a rhieni.

d) mae peth tystiolaeth gynnar o'r gwerthusiad bod cynnig gofal plant a gyllidir gan y Llywodraeth wedi arwain at beth effaith gadarnhaol, ond nid arwyddocaol, ar ragolygon cyflogaeth rhieni a gefnogir ganddo. Canfu'r adolygiad o'r flwyddyn gyntaf effaith fach ar allu menywod i weithio mwy o oriau sy'n gallu arwain at gynyddu incwm aelwyd a lefelau is o dlodi mewn gwaith.

e) mae peth tystiolaeth i ategu penderfyniad Llywodraeth Cymru i dargedu'r cynnig at blant 3 a 4 blwydd oed, ac i ddylunio'r cynnig fel bod rhieni'n gallu cael mynediad at ddiwrnod llawn o ofal plant.

f) o ran y sefyllfa'n gynnar ym mis Medi 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £80 miliwn o gyllid cyfalaf i fynd ati'n well, lle y bo'n bosibl, i gydleoli'r elfennau gofal plant ac addysg o'r cynnig. Mae'n credu y bydd hyn yn annog mwy o rieni i fanteisio ar y cynnig gan bod rhieni wedi mynegi bod yn well ganddynt gael gofal ar yr un safle.

g) mae Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith i hybu ei dealltwriaeth am y rhesymau pam nad yw rhieni cymwys yn ceisio mynediad at y cynnig er mwyn cynyddu i'r eithaf nifer y plant a rhieni cymwys sy'n gallu cael budd ohono.

h) roedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod angen cefnogi cynaliadwyedd hirdymor y sector gofal plant. Canfu'r adolygiad o'r flwyddyn gyntaf fod darparwyr yn dweud bod cynaliadwyedd wedi gwella gan bod cleientiaid a oedd yn bodoli cyn y cynnig yn defnyddio mwy o oriau.

i) mae'r Cynnig wedi cael ei gyflwyno ledled Cymru yn gyflymach nag a fwriadwyd yn wreiddiol: roedd i fod i gael ei gyflwyno ym mis Medi 2020 ond cyflawnwyd hynny ym mis Ebrill 2019. Felly, mae mwy o rieni a phlant wedi gallu cael mynediad at fanteision hirdymor a byrdymor posibl y cynnig.

6 Nid oes tystiolaeth eto bod y cynnig yn gallu mynd i'r afael ag un o'i nodau hirdymor; cynorthwyo 'rhieni, yn enwedig mamau, i ddychwelyd i'r gwaith'. Canfu'r adolygiad o'r flwyddyn gyntaf fod y cynnig wedi effeithio ar nifer yr oriau yr oedd rhieni'n gweithio ac wedi rhoi hyblygrwydd ychwanegol i rieni o ran patrymau gweithio ond ni chanfu dystiolaeth bod rhieni wedi dychwelyd i'r gweithle.

[42] Glover, A., Harries, S., Lane, J. a Lewis, S., **Gwerthuso Gweithredu Cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru**, ymchwil gymdeithasol rhif 61/2018, Tachwedd 2018

7 **Canfuom un maes ar gyfer gwella: sicrhau bod y cynnig yn cefnogi amrywiaeth o'r ddarpariaeth gofal plant**. Mynegodd darparwyr bryder y bydd cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i roi cymorth i gydleoli darpariaeth feithrin y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn llurgunio'r farchnad er budd darpariaeth mewn lleoliadau a gynhelir. Yn y pen draw ceir risg bod hyn yn lleihau amrywiaeth y ddarpariaeth yn y sector, yn hytrach na'r nod a fwriedir, sef cefnogi darpariaeth amrywiol.

## Atal: Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir beth yw nodau ataliol y cynnig, ond mae tystiolaeth gynnar yn dangos effaith fach iawn ar ei hamcanion datganedig a gallai fod mwy o eglurder o ran sut y mae ei chynnig yn cydadweithiol â chymorth arall gyda gofal plant

8 Canfuom y cryfderau canlynol:

a) mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir beth yw nodau ataliol ei chynnig. Cyfathrebodd yn effeithiol gyda rhanddeiliaid ynglŷn â'i barn bod dau brif nod ataliol i'r cynnig:
- atal gostyngiad ym maint ac amrywiaeth y sector gofal plant; ac
- atal tlodi trwy gynyddu lefelau cyfranogiad mamau yn y gweithlu.

b) yn yr adolygiad o'r flwyddyn gyntaf, dywedodd darparwyr fod cynaliadwyedd wedi cynyddu, gyda chynnydd yn nifer yr oriau'n cael ei nodi fel y prif reswm dros y cynnydd mewn cynaliadwyedd. Hefyd, canfu'r adolygiad o'r flwyddyn gyntaf fod y Cynnig wedi cael effaith fach iawn ar allu menywod i weithio mwy o oriau: dywedodd 12% o ymatebwyr benywaidd eu bod wedi cynyddu eu horiau ar ôl manteisio ar y cynnig. Dywedodd menywod fod ganddynt fwy o hyblygrwydd mewn penderfyniadau ynglŷn â gwaith (68% o ymatebwyr).

c) bydd yr adolygiadau o'r flwyddyn gyntaf, yr ail flwyddyn a'r drydedd flwyddyn yn canolbwyntio ar weithredu'r cynnig; ei effaith ar y sector gofal plant a'i effeithiau ar batrymau gweithio rhieni. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn bwriadu defnyddio'r adolygiad o'r bedwaredd flwyddyn i fwrw golwg ar effaith y cynnig ar ddatblygiad plant a'u parodrwydd ar gyfer yr ysgol.

9 Canfuom y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

a) **diffinio amcanion y cynnig yn fwy eglur** – nod y cynnig yw 'helpu i wrthweithio tlodi ar gyfer y rhai mewn swyddi â chyflog isel'. Nid yw rhieni mewn aelwydydd lle mae un neu fwy nag un rhiant yn ennill mwy na £100,000 yn gymwys i gael y cynnig. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi diffinio ystyr 'swyddi â chyflog isel' felly nid yw'n eglur sut y bydd yn asesu pa un a yw'r cynnig yn cyflawni'r amcan hwn.

b) **ni fydd tystiolaeth ynglŷn ag effaith y cynnig ar ddatblygiad plant a'u parodrwydd ar gyfer yr ysgol ar gael tan o leiaf 4edd flwyddyn y**

**cynnig.** Un o nodau'r cynnig yw gwella parodrwydd plant ar gyfer yr ysgol, y tu hwnt i effaith darpariaeth addysg feithrin y cyfnod sylfaen sydd ar gael yn gyffredinol. Ni fyddai yn cael ei archwilio tan gamau hwyrach y rhaglen werthuso arfaethedig y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei chomisiynu o 20202.

c) **deall sut y mae'r cynnig yn cydadweithiol â'r systemau treth a budd-daliadau** – ceir ffynonellau amrywiol ar gyfer cymorth gyda chostau gofal plant i rieni sy'n gweithio: mae gan gredyd cynhwysol, credyd treth gwaith a gofal plant di-dreth feini prawf cymhwystra gwahanol gan ddibynnu ar incwm ac oedran a nifer y plant mewn aelwyd. Ceir risg bosibl i werth am arian os yw'r cynnig yn disodli cymorth ariannol a fyddai wedi bod ar gael i rieni o ffynonellau eraill. Gallai rhieni fod ar eu colled hefyd trwy beidio â chael cymorth os ydynt wedi'u drysu ynglŷn â beth sydd ar gael iddynt. Canfu'r adolygiad o'r flwyddyn gyntaf fod rhai rhieni'n ei chael yn anodd deall sut yr oedd y cynnig yn cyd-fynd â chymorth arall sydd ar gael gyda chostau gofal plant. Nid oedd rhai rhieni yn ei hawlio am eu bod yn credu y byddent yn well eu byd pe baent yn gadael eu credydau treth heb eu haddasu. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu gwybodaeth am ffynonellau cymorth gyda gofal plant ar ei gwefan. Mae gwefan Llywodraeth y DU yn cynnwys offeryn cyfrifo i helpu rhieni i ganfod a fyddent yn well eu byd pe baent yn parhau i hawlio credydau treth, ond nid yw'n glir a yw'n adlewyrchu manylion cynnig Llywodraeth Cymru[43]

## Integreiddio: Mae'r cynnig yn cyfrannu at nifer o amcanion llesiant a meysydd blaenoriaeth er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai wneud mwy i gyflawni ei flaenoriaethau'n effeithiol

10 Canfuom y cryfderau canlynol:

a) mae Llywodraeth Cymru yn glir bod y cynnig yn rhan o'i hamcan llesiant i 'gefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant'. Mae hefyd yn cyfrannu at un o feysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, sef y blynyddoedd cynnar[44].

b) mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried sut i integreiddio'r cynnig – rhaglen gyflogadwyedd yn bennaf – â'i hamcan llesiant i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

---

[43] Mae pob un o wledydd y DU yn rhoi rhyw fath o gymorth gyda chostau gofal plant i rieni sy'n gweithio. Yn Lloegr, mae gan yr holl blant 3 a 4 oed hawl i 570 o oriau o addysg (sy'n gyfwerth â 15 awr yr wythnos dros 38 wythnos er y gallant ei estyn dros gyfnod hwy). Gall rhieni sy'n gweithio fod â hawl i hyd at 30 awr o ofal plant (1,140 o oriau'r flwyddyn) gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau.

[44] Mae'r 'blynyddoedd cynnar' yn ymestyn o'r cyfnod cyn geni i ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (7 oed).

c) mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried sut i integreiddio'r cynnig â'i hamcan llesiant i 'ddatblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth' a'r amcanion a nodir ganddi yn strategaeth y Gymraeg[45]. Mae Strategaeth y Gymraeg yn disgrifio bylchau mewn darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg mewn rhai rhannau o Gymru. Mae'n cynnwys nod i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan gydnabod ei bod yn gweithredu fel pwynt mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £33 miliwn o'r £80 miliwn o gyllid cyfalaf sydd ar gael ar gyfer darpariaeth gofal plant mewn ysgolion ar gyfer plant 3 a 4 oed i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

11 Canfuom un cyfle ar gyfer gwella – **sicrhau bod cyllid ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei wario.** Mae cyllid Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Hyd yma, nid yw awdurdodau lleol wedi bod yn gwario'u dyraniad yn llawn. Dywedodd awdurdodau lleol wrth dîm yr adolygiad o'r flwyddyn gyntaf mai'r rheswm dros hyn oedd yr ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol ar gyfer cymorth gydag anghenion dysgu ychwanegol a sut i ddyrannu eu cyllidebau.

## Cydweithio: Mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio gydag ystod eang o randdeiliaid ond mae'n cydnabod y dylai fod wedi cydweithio'n fwy effeithiol gydag ysgolion a chyda rhaglenni i gynorthwyo rhieni nad ydynt yn gweithio i gael gwaith

12 Canfuom y cryfderau canlynol:

a) fe wnaeth Llywodraeth Cymru ystyried sut y gallai gydweithio gydag ystod eang o randdeiliaid o'r cam dylunio cynnar i'r cam gweithredu. Roedd rhanddeiliaid yn cynnwys awdurdodau lleol, darparwyr gofal plant a rhieni.

b) roedd rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi'r dull cydweithredol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig ei bod yn cydnabod arbenigedd a gwybodaeth partneriaid.

c) mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddeall cryfderau a gwendidau ei dull o gydweithio i ddarparu'r cynnig. Fe wnaeth yr adolygiad o flwyddyn gyntaf y cynnig ystyried effeithiolrwydd y cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid. Bydd y gwerthusiad o'r 2il flwyddyn (sydd ar y gweill) yn dychwelyd at y pwnc yma.

13 Canfuom y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

a) **ymgysylltu ar lefel ysgolion**. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai fod wedi gwneud mwy yn y dechrau i ystyried sut i ymgysylltu ar lefel ysgolion wrth ddarparu'r cynnig.

[45] Llywodraeth Cymru, **Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr**

b) **cymorth i rieni nad ydynt yn gweithio**. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen iddi weithio'n well gyda'r rhai sy'n cyflawni rhaglenni i gynorthwyo rhieni, yn enwedig mamau, nad ydynt yn gweithio ar hyn o bryd i gael gwaith. Ceir ystod o ffynonellau cyngor a chyllid ar gyfer gofal plant i alluogi rhieni nad ydynt yn gweithio i gwblhau addysg a hyfforddiant gan gynnwys:

- canolfannau gwaith – er enghraifft, y Cynllun Cymorth Hyblyg sy'n gallu talu costau gofal plant pan fo rhywun yn dechrau gweithio;
- grantiau Llywodraeth Cymru – er enghraifft grantiau gofal plant i rieni sy'n astudio mewn Sefydliadau Addysg Bellach; a
- rhaglen rhieni, gofal plant a chyflogadwyedd a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

## Cynnwys: Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys y bobl gywir gan mwyaf, ac mae gan randdeiliaid farn gadarnhaol am y gwaith y mae wedi'i wneud i'w cynnwys a dysgu oddi wrthynt

14 Canfuom y cryfderau canlynol:

a) fe sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp llywio ac fe gynhaliodd nifer o weithdai, gyda chyfranogwyr o awdurdodau lleol, adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru a darparwyr, gan gynnwys darparwyr cyfrwng Cymraeg, i helpu i ddylunio'r cynnig.

b) fe sefydlodd Llywodraeth Cymru gyfleoedd i awdurdodau lleol gael budd o brofiadau'r gweithredwyr cynnar.

c) fe sefydlodd Llywodraeth Cymru yr ymgyrch 'Dweud Eich Dweud ar Ofal Plant' i ymgysylltu â rhieni a darparwyr ynghylch y cynnig. Fe ymgysylltodd â bron i 6,500 o rieni a darparwyr drwy'r ymgyrch.

d) dywedodd rhanddeiliaid wrthym eu bod yn gwerthfawrogi natur agored, hygyrch ac ymatebol swyddogion Llywodraeth Cymru. Y farn yw bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi arbenigedd a gwybodaeth eraill.

e) mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i bryderon a materion a godwyd gan eraill. Er enghraifft, mae wedi gwneud y canlynol:

- trefnu bod cyllid ychwanegol ar gael i awdurdodau lleol i weinyddu'r broses ymgeisio;
- cynnal gweithdai gyda chynrychiolwyr y sector i drafod y gyfradd talu;
- ymateb i bryderon ynghylch cyfraddau gwahanol ar gyfer elfen Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen a'r elfen gofal plant o'r cynnig trwy gefnogi 'cynllun peilot Sir y Fflint' (yr un gyfradd ar y ddwy elfen o'r cynnig); a

- defnyddio adborth gan yr awdurdodau lleol a oedd yn weithredwyr cynnar i ddiweddaru'r canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch dyrannu cyllid anghenion dysgu ychwanegol.

f) mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ei hymrwymiad i gynnwys rhieni, darparwyr ac awdurdodau lleol yn y broses o werthuso a datblygu'r cynnig. Mae blwyddyn 1af ac 2il flwyddyn yr adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â darparwyr, swyddogion awdurdodau lleol a rhieni sy'n cael y cynnig.

15 Canfuom un cyfle ar gyfer gwella. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen iddi fynd ati yn awr i **gynnwys ysgolion yn fwy uniongyrchol mewn gwaith i hyrwyddo'r cynnig** i annog mwy o rieni i fanteisio arno ac i integreiddio elfen Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen a'r elfen gofal o'r cynnig yn well.

# Atodiad 4

## Y Gronfa Iach ac Egnïol

### Cefndir

1 Mae'r Gronfa Iach ac Egnïol yn rhoi cymorth ar gyfer prosiectau i ddatblygu asedau cymunedol a gaiff eu rhedeg gan y gymuned, grwpiau chwaraeon neu ysgolion. Ei nod yw gwella iechyd meddwl ac iechyd corfforol trwy alluogi pobl i fyw bywydau iachach a mwy egnïol ac:

   a) mynd ati mewn modd cynaliadwy i gynyddu gweithgarwch corfforol ymhlith y rhai sy'n eisteddog neu sydd â lefelau isel iawn o weithgarwch corfforol ar hyn o bryd; a

   b) gwella lefelau llesiant meddyliol trwy hybu rhyngweithiadau cymdeithasol a chynyddu mynediad at fannau awyr agored.

2 Partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yw cam cyntaf y gronfa. Mae ganddi gyllideb gyfunol o £5.4 miliwn dros dair blynedd (£1.87 miliwn gan Chwaraeon Cymru a £3.53 miliwn gan Lywodraeth Cymru). Fe wnaeth arian gan y sefydliadau sy'n rhan o'r prosiectau gynyddu'r cyfanswm i £7.7 miliwn ar yr adeg y cyhoeddwyd y grantiau.

3 Mae'r Gronfa ar gyfer grwpiau a sefydliadau cymunedol sy'n mynd ati'n frwd i hyrwyddo gweithgarwch iach a'i alluogi i ddigwydd ar gyfer un neu fwy o blith y canlynol:

   a) plant a phobl ifanc;

   b) pobl anabl neu'r rhai ag afiechyd hirdymor;

   c) pobl sy'n economaidd anweithgar neu'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd; neu

   d) pobl hŷn neu'r rhai sy'n agos at ymddeol o'r gwaith.

4 Lansiwyd y Gronfa ym mis Gorffennaf 2018. Cafwyd ceisiadau am gyllid gan 109 o brosiectau ym mis Tachwedd 2018. Byddai cyfanswm cost y rhain wedi bod yn £29 miliwn, mwy na phum gwaith y gyllideb a oedd ar gael a gwahoddwyd 42 o brosiectau i gyflwyno achos busnes llawnach. Ym mai Mehefin 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 17 o brosiectau llwyddiannus o bob rhan o Gymru[46]. Roedd ei datganiad yn disgrifio'r holl brosiectau llwyddiannus fel rhai a oedd yn defnyddio dull cydweithredol.

[46] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig – Y Gronfa Iach ac Egnïol, 13 Mehefin 2019

## Hirdymor: goleuwyd y Gronfa gan dystiolaeth ond, er bod cynlluniau i fonitro’r effaith fyrdymor ar unigolion a chynaliadwyedd prosiectau, mae bylchau o ran gwerthuso’r effaith hirdymor

5 Canfuom y cryfderau canlynol:

a) Dyluniwyd a datblygwyd y Gronfa gyda ffocws cryf ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy a’r pum ffordd o weithio.

b) Mae’r Gronfa’n seiliedig ar ddealltwriaeth dda am heriau hirdymor cynyddu gweithgarwch corfforol ac am y cysylltiadau rhwng ffyrdd o fyw eisteddog ac afiechyd. Mae’n darparu grantiau i brosiectau sydd wedi’u bwriadu i newid ymddygiadau a ffyrdd o feddwl tuag at weithgarwch dros y tymor hir.

c) Roedd y broses ymgeisio wedi’i bwriadu i gael ei goleuo gan dystiolaeth a rhoi anogaeth ar gyfer cynllunio cynaliadwy:

- mae’r rhai sy’n ymgeisio am gyllid yn cael eu helpu i gael mynediad at dystiolaeth am ymyriadau effeithiol a deall heriau cynyddu cyfranogiad.
- mae’n ofynnol i gynigwyr ddangos tystiolaeth glir o angen am y prosiect a sut y bydd y prosiect yn diwallu’r angen dynodedig.
- cyllidir prosiectau llwyddiannus am dair blynedd. I annog ceisiadau i ystyried bod yn hunangynhaliol yn y tymor hir, bydd y cyllid ar gyfer prosiectau’n haneru ym mlwyddyn 3. Roedd rhaid i ymgeiswyr gynllunio ar gyfer darparu cyfraniad yn lle cyfraniad y Llywodraeth.
- roedd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos sut y mae’r pum ffordd o weithio wedi trefnu a llywio’r cais.

d) Mae cynlluniau i werthuso’r prosiectau gan gynnwys, lle y bo’n bosibl, effeithiau tymor hwy:

- mae’n ofynnol i brosiectau gasglu data ar weithgarwch corfforol a llesiant meddyliol cyn ac ar ôl amser y cyfranogwyr gyda’r prosiect a, lle y bo’n bosibl, 6 mis a 12 mis ar ôl y sesiwn olaf iddynt fod ynddi.
- bydd y gwerthusiad arfaethedig ar ôl y 4edd flwyddyn yn coladu ac yn dadansoddi unrhyw ddata sydd ar gael ar ddeilliannau 12 mis ar ôl ymwneud â’r prosiect.

6 Canfuom y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

a) **deall yr effaith fwy hirdymor ar iechyd cyfranogwyr**. Mae gwneud gwaith dilynol gyda chyfranogwyr ar ôl yr ymyriad yn anodd o ran ei hanfod, yn rhannol oherwydd anhawster tracio unigolion a chost anghymesur gwneud hynny o’i gymharu â gwerth y buddsoddiad mewn rhai o’r prosiectau. Mae dangos achosiaeth rhwng ymyriad ar y raddfa

hon a llesiant wedi hynny yn anodd o ran ei hanfod hefyd. Er gwaethaf y materion hyn, fodd bynnag, nid oes cynlluniau i asesu deilliannau ar gyfer unigolion fwy na 12 mis wedi i'r cyllid ddod i ben sy'n lleihau'r cyfle i ddeall effaith fwy hirdymor y prosiectau.

b) **cynaliadwyedd hirdymor y prosiectau**. Nid oes cynlluniau i asesu a yw prosiectau'n cael eu cynnal am fwy na 12 mis ar ôl i'r cyllid ddod i ben. Eto, mae hyn yn lleihau'r cyfle i ddeall effeithiolrwydd y Gronfa o ran datblygu a chryfhau asedau cymunedol.

c) **ystyried y gallu i dyfu'n unol â'r anghenion ar y dechrau** – yn y tymor hir, mae potensial i ehangu prosiectau llwyddiannus. Mae bwrdd y prosiect wedi ystyried costau posibl tyfu rhai prosiectau llwyddiannus yn unol â'r anghenion. Daeth i'r casgliad y gallai rhai o'r rhain fod yn 'afresymol' o gostus. Byddai asesu gallu posibl unrhyw gynnig i dyfu'n unol â'r anghenion yn osgoi cyllido'r rhai sy'n annhebygol o gael eu hehangu os byddant yn llwyddiannus.

## Atal: mae'r Gronfa wedi'i bwriadu i atal afiechyd trwy fuddsoddi mewn asedau cymunedol, ond ni fydd y gwerthusiad arfaethedig yn ei gwneud yn bosibl cwblhau asesiad cadarn o'r nod hwn

7 Canfuom y cryfderau canlynol:

a) mae'r Gronfa wedi'i seilio ar dystiolaeth o'r cysylltiadau rhwng lefelau isel o weithgarwch corfforol ac iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwael;

b) dangosodd aelodau o fwrdd y prosiect ddealltwriaeth am y mathau o broblemau y gall cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol helpu i fynd i'r afael â hwy;

c) mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati'n frwd i geisio cynyddu/datblygu ei dealltwriaeth trwy weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau ag arbenigedd mewn meysydd perthnasol;

d) cafodd ymgeiswyr posibl eu gwneud yn ymwybodol o bwysigrwydd sicrhau bod eu cynigion yn gynaliadwy ac yn achosi effeithiau ataliol yn y broses ymgeisio;

e) mae cynlluniau i werthuso'r gronfa ar y cyfan (proses a deilliannau) a phob prosiect; ac

f) mae ymgeiswyr yn cael gwybodaeth ynghylch sut i wneud gwaith monitro a gwerthuso ar lefel prosiect.

8 Canfuom un cyfle ar gyfer gwella: **gwerthuso pa un a ellir dangos bod newidiadau byrdymor mewn ymddygiad neu lesiant gwell wedi atal unrhyw ddeilliannau iechyd negyddol yn y dyfodol**. Er enghraifft, nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i asesu a yw plant a phobl ifanc sy'n rhan o brosiectau'n llai tebygol na'i gilydd i brofi iechyd meddwl a chorfforol gwael yn y tymor hwy. Mae hyn yn lleihau effaith bosibl y prosiect o ran cronni tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio.

## Integreiddio: mae Llywodraeth Cymru yn glir ynglŷn â sut y mae'r Gronfa'n cefnogi amcanion llesiant ehangach

9 Canfuom y cryfderau canlynol:

a) mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried sut y bydd y Gronfa'n effeithio ar ei hamcanion llesiant hi ei hun;

b) roedd yn ofynnol i geisiadau i'r gronfa ddangos sut y mae'r 5 ffordd o weithio wedi dylanwadu ar y cais a'i lywio; ac

c) mae'r tri phartner yn y bartneriaeth sy'n cyflawni'r Gronfa – Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru – yn cael eu cynrychioli yn ei strwythur llywodraethu integredig.

10 Hyd yma, bu llawer o ddiddordeb mewn 'presgripsiynu cymdeithasol'[47] i ysgogi llesiant a rheoli'r galw am wasanaethau iechyd. Fodd bynnag, ni fu diffiniad cyson o'r hyn y mae 'presgripiynu cymdeithasol' yn ei olygu yng Nghymru. Mae'r term wedi cofleidio ystod o ymyriadau sy'n hybu llesiant a hunanofal, yn ysgogi cynhwysiant cymdeithasol ac yn meithrin cydnerthedd i'r unigolyn a'r gymuned. Yn 2018-19, sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp i ddwyn ynghyd rannau o'r Llywodraeth a oedd yn gysylltiedig â mentrau presgripsiynu cymdeithasol i ddatblygu dull mwy integredig. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, swyddogion sy'n datblygu'r strategaeth unigrwydd[48] a rhannau eraill o Lywodraeth Cymru. Mae'n ystyried bod y Gronfa'n cyfrannu at ddatblygu a chryfhau asedau cymunedol (thema 4 yn y rhaglen presgripsiynu cymdeithasol).

11 Canfuom un cyfle ar gyfer gwella, sef **dogfennu'r effaith ar amcanion llesiant partneriaid**. Cymerodd Llywodraeth Cymru ofal i wirio bod cylch gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru yn caniatáu iddo weithio mewn partneriaeth gyda hi a Chwaraeon Cymru i weinyddu'r gronfa. Trafododd partneriaid yr effaith ar amcanion llesiant pob sefydliad. Fodd bynnag, nid oedd dogfennaeth prosiectau'n dangos yn ffurfiol sut y mae'r gronfa'n cyd-fynd ag amcanion llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru na Chwaraeon Cymru.

## Cydweithio: mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ymrwymiad i gydweithio ym mhob agwedd ar y gronfa, gan gynnwys ei dylunio, ei rheoli a'i gwerthuso

12 Canfu ein hadolygiad ni fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi anogaeth i gydweithio wrth ddylunio, datblygu a rheoli'r gronfa:

---

[47] Mae presgripsiynu cymdeithasol (a elwir weithiau'n atgyfeirio cymunedol) yn galluogi meddygon teulu, nyrsys a gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol eraill i atgyfeirio pobl at ystod o wasanaethau lleol, anghlinigol. Mae nifer o fodelau'n bodoli, y mae gan y rhan fwyaf ohonynt weithiwr cyswllt / cyfeirwyr sy'n gweithio gyda phobl i gael mynediad at ffynonellau cymorth lleol.

[48] Cyhoeddwyd papur ymgynghori Llywodraeth Cymru '**Cysylltu Cymunedau – Mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol**' ym mis Hydref 2018.

a) **rhoi anogaeth i gydweithio yn y prosiectau a gyllidir** – roedd yn ofynnol i geisiadau am gyllid ddangos y byddai'r prosiect yn cael ei gyflawni gan o leiaf ddau sefydliad o sectorau gwahanol. Roedd rhaid iddynt ddisgrifio hefyd sut y byddai'r prosiectau'n adlewyrchu'r pum ffordd o weithio. Roedd cydweithio'n faen prawf allweddol wrth werthuso pob cynnig.

b) **datblygu a rheoli'r Gronfa** – darparwyd sioeau teithiol rhanbarthol i godi ymwybyddiaeth o'r Gronfa a chefnogi'r broses ymgeisio ar y cyd gyda staff o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Tîm Arloesi Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru yn cymryd rhan. Caiff y prosiect ei oruchwylio gan Fwrdd prosiect sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

13 Bydd y gwerthusiad o'r rhaglen yn ystyried pa mor dda y mae'r dull cydweithredol rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru wedi gweithio. Bydd hefyd yn ystyried pa mor lwyddiannus fu'r cydweithio ar lefel prosiectau.

14 Canfuom un cyfle ar gyfer gwella: **ystyried yn gynnar sut y gallai'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (fel Deddf Diogelu Data 2018) effeithio ar gydweithio llwyddiannus**. Roedd Bwrdd y Prosiect yn bwriadu defnyddio gweithdai ar gyfer darpar ymgeiswyr i ddatblygu cydweithio ar draws sefydliadau a oedd yn cynnig cynlluniau tebyg. Fodd bynnag, canfu'n ddiweddarach nad oedd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau ar rannu data personol.

## Cynnwys: mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys adrannau, cyrff cyhoeddus a grwpiau cymunedol priodol ac wedi dangos ymrwymiad i wella'i dull o gynnwys

15 Canfuom y cryfderau canlynol:

a) canfu Llywodraeth Cymru fod angen iddi gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru i ddylunio a chyflawni'r Gronfa ar adeg gynnar. Roedd rolau a chyfrifoldebau partneriaid yn adlewyrchu eu meysydd arbenigedd a'u sgiliau yn ogystal â'r gwersi ar y cyd a ddysgwyd gan bartneriaid.

b) roedd ystod eang o randdeiliaid yn rhan o gyflwyno'r gweithdai i bobl o sefydliadau oedd â diddordeb mewn ymgeisio am gyllid. Defnyddiodd Bwrdd y Prosiect adborth o'r gweithdai i ddatblygu canllawiau ar gyfer ceisiadau trwy gydol y broses ac iddi ddau gam.

c) Adnabu Llywodraeth Cymru y dylai cynnwys cymunedau fod yn rhan hanfodol o'r meini prawf ar gyfer gwerthuso cynigion am brosiectau. Ni fu unrhyw weithgarwch i gynnwys y cyhoedd yn fwy cyffredinol hyd yma, ond nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i awgrymu wrthym bod hyn yn angenrheidiol. Yn y gweithdy a gynhaliwyd gennym fel rhan o'r gwaith hwn, roedd yn amlwg bod Bwrdd y Prosiect wedi bod yn myfyrio i ba

raddau yr oeddent wedi cynnwys y cyhoedd yn fwy cyffredinol wrth ddatblygu'r cynllun.

16 Canfuom un maes ar gyfer gwella**: cynnwys cymunedau'n fwy yn y prosiectau**. Mae'r holl brosiectau'n rhai cymunedol ond ceir amrywiaeth wrth ystyried i ba raddau y mae cymunedau'n cael eu cynnwys yn y broses o ddylunio a/neu gyflawni prosiectau a gefnogir gan y gronfa. Gallai'r gwerthusiad o'r Gronfa archwilio effaith cynnwys cymunedau i raddau amrywiol yn y prosiectau unigol, er enghraifft ar ddeilliannau unigolion a chynaliadwyedd prosiectau pan fo cyllid grant yn dod i ben.

# Atodiad 5

## Ymateb Llywodraeth Cymru

1 Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu archwiliad Archwilydd Cyffredinol Cymru dan Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf'). Dyma archwiliad cyntaf o Lywodraeth Cymru dan y ddeddfwriaeth ac mae'n rhoi darlun pwysig o safbwynt archwilio o gryfderau Llywodraeth Cymru a'r meysydd i'w gwella wrth gyflawni dyheadau'r Ddeddf, yn arbennig y meysydd hynny sy'n cael eu harchwilio.

2 Ers i'r Ddeddf ddod i rym, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i sefydlu'r ddeddfwriaeth ymhellach ac i gyflawni'r ymrwymiad mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru. Bydd y darlun a geir o'r adroddiad hwn yn llywio camau yn y dyfodol er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y diffinnir yn y Ddeddf, a gwireddu manteision y ddeddfwriaeth. Ym mis Ionawr 2020, byddwn yn cynnal digwyddiad mawr ar gyfer y cyhoedd a'r trydydd sector er mwyn canolbwyntio ar y pum ffordd o weithio sydd yn y Ddeddf a sut gallwn gydweithredu'n well er mwyn eu cyflawni.

3 Ein dull o weithio yw un o brif themâu menter Diogelu'r Dyfodol yr Ysgrifennydd Parhaol – rhaglen eang a pharhaus o newidiadau a gwelliannau sydd â'r nod o ddatblygu gwasanaeth sifil hyderus, medrus a gwydn sy'n gallu ymateb i'r heriau yr ydym yn eu hwynebu heddiw ond sy 'n gallu paratoi'r sefydliad hefyd ar gyfer heriau'r dyfodol. Nod y fenter Diogelu'r Dyfodol yw paratoi staff Llywodraeth Cymru i ymateb i'r heriau o gyflawni *Ffyniant i Bawb - y strategaeth genedlaethol* (sy'n cynnwys yr amcanion llesiant) a meithrin gwasanaeth sifil hyderus, medrus a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae cyfres o ddisgwyliadau sefydliadol wedi'u datblygu gydag aelodau staff a chydweithwyr Ochr yr Undebau Llafur er mwyn egluro'r ymddygiad a'r rhinweddau y mae Llywodraeth Cymru'n gweld gwerth ynddynt. Mae'r rhain yn cynnwys arweinyddiaeth gynhwysol, ymrwymiad i ddatblygu a dysgu, cydweithredu ar draws ffiniau a'r pum ffordd o weithio.

4 Rydym yn parhau i gryfhau ein defnydd o’r pum ffordd o weithio yn ein systemau corfforaethol, ein prosesau a’n rhaglenni dysgu a datblygu, ac rydym yn adolygu’r dysgu yr ydym yn ei gynnig er mwyn sicrhau bod hyfforddiant a datblygiad yn cefnogi Gweision Sifil wrth iddynt gymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy’r pum ffordd o weithio.

5 Byddwn yn gwella hygyrchedd yr Adroddiad Tueddiadau’r Dyfodol ac adnoddau cysylltiedig, gan ganolbwyntio’n benodol ar Adroddiad nesaf Tueddiadau’r Dyfodol. Wrth baratoi ar gyfer hyn, byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol am eu gofynion, a pharhau i ddarparu hyfforddiant ar gyfer staff sy’n eu paratoi i ystyried tueddiadau’r dyfodol ac ymgorffori ‘syniadau ar gyfer y dyfodol’ i’r broses o lunio polisïau. Byddwn yn parhau i ddatblygu dulliau o hwyluso’r broses o integreiddio polisïau ar draws y llywodraeth, ac i gefnogi hyn, rydym yn datblygu’r dull o gynnal Asesiad Effaith Integredig ymhellach er mwyn helpu i gydlynu polisïau’n well wrth fynd ar drywydd amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Er mwyn cael mwy o gyfraniad gan yr amrywiaeth lawn o ddinasyddion a chymunedau yng ngwaith Llywodraeth Cymru, mae gwaith ar Becyn Cynhwysiant wrthi’n cael ei brofi ac rydym yn ymchwilio i’r posibilrwydd o gael Platfform digidol ar gyfer Dinasyddion. Byddwn yn adeiladu ar y diffiniad o atal y cytunwyd arno er mwyn hyrwyddo’r defnydd ohono fel rhan o’r gwaith o wella gallu’r polisi.

Arddangosyn 5: camau gweithredu Llywodraeth Cymru – sicrhau 100,000 o brentisiaethau newydd yn nhymor 2016-2021 y Cynulliad

Mae'r rhaglen brentisiaeth yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae cysoni prentisiaethau ag anghenion economi Cymru yn ganolog i'n polisi sgiliau. Rydym yn adeiladu ein system sgiliau er mwyn ymateb yn well i newidiadau ym myd diwydiant a rhoi Cymru mewn sefyllfa gryfach i ymdrin ag effaith globaleiddio, newidiadau technolegol ac i ymateb i'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd. Ein strategaeth yw buddsoddi mewn hyfforddiant sy'n darparu adenillion economaidd a chymdeithasol ac sy'n mynd i'r afael â diffygion a bylchau mewn sgiliau sy'n rhwystro cynhyrchiant a thwf.

| Ffordd o weithio | Cyfle i wella | Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| Tymor hir | Sicrhau bod cyllid yn gynaliadwy yn y tymor hir. | Parhau i adolygu'r galw a'r ysgogwyr contractio er mwyn sicrhau bod y buddsoddiad mewn sectorau blaenoriaeth yn gynaliadwy. |
| Tymor hir | Deall costau i gyflogwyr. | Cydweithio'n agos a'r Ffederasiwn Busnesau Bach er mwyn deall sut gallwn glystyru darpariaeth o amgylch sectorau penodol, fel y gall busnesau bach a chanolig gael gwell mynediad i'r rhaglen.<br>Adolygu trefniadau i ddatblygu cynnwys dysgu'r fframwaith, er mwyn sicrhau bod ein prentisiaethau'n diwallu anghenion yr economi ac yn ymateb i newidiadau mewn diwydiant. |
| Atal | Deall effaith prentisiaethau ar yrfaoedd ac enillion. | Defnyddio setiau data cysylltiedig er mwyn sicrhau y gellir dadansoddi canlyniadau pobl sy'n cwblhau prentisiaethau mewn modd mwy hydredol.<br>Archwilio dros amser y posibilrwydd o ddadansoddi canlyniadau cyflogaeth ac enillion dysgwyr mewn modd hydredol. |
| Atal | Cynyddu nifer y prentisiaethau sy'n mynd i recriwtiaid newydd yn hytrach na gweithwyr presennol i gynyddu sgiliau. | Gwneud newidiadau i ofynion cymhwysedd er mwyn sicrhau ein bod yn targedu cymorth i'r unigolion hynny y bydd disgwyl iddynt gael y budd mwyaf o'r rhaglen. Blaenoriaethu ac ysgogi pobl ifanc rhwng 16-19 oed i ymuno â'r rhaglen a dal ati i roi ymyriadau ar waith er mwyn sicrhau bod ein pobl ifanc yn pontio'n rhwydd i brentisiaethau. |
| Atal | Deall effaith yr Ardoll Brentisiaethau ar gyflogwyr yng Nghymru i sicrhau | Cydweithio'n agos â'n partneriaid cymdeithasol er mwyn sicrhau bod prentisiaethau ar gael mewn ardaloedd blaenoriaeth sy'n cefnogi'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. |

| Ffordd o weithio | Cyfle i wella | Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| | bod buddsoddiad y Llywodraeth yn sicrhau gwerth am arian. | Sefydlu tîm o gynghorwyr i gynorthwyo cyflogwyr sy’n talu ardoll a chyhoeddi canllawiau ffeithiol ar gyfer pobl sy’n talu ardoll a chyflogwyr eraill ar y ffordd y gallant gael mynediad i’r rhaglen.<br>Ymgynghori ar y cysyniad o Lywodraeth Cymru yn cyflawni rôl awdurdod dyroddi ar gyfer prentisiaethau, a fyddai’n darparu mesur ychwanegol er mwyn sicrhau bod fframweithiau newydd a diwygiedig yn adlewyrchu ein blaenoriaethau ac yn rhoi gwerth am arian. |
| Integreiddio | Efallai y bydd cyfleoedd ychwanegol i gefnogi cyflawni amcanion llesiant eraill. | Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i barhau i gydweithio’n agos â darparwyr a chyflogwyr er mwyn mynd i’r afael â materion cydraddoldeb a’u hyrwyddo.<br>Mae Prentisiaethau Cynhwysol: Cynllun Gweithredu ar Anabledd yn amlinellu camau gweithredu’r Tîm Lleiafrifoedd Ethnig a Chymorth Ieuenctid, Race Alliance Wales a llawer mwy ac wedi rhoi cyfleoedd i’n rhwydwaith o ddarparwyr prentisiaethau i gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol yr ydym yn eu cynnal er mwyn cynyddu nifer y bobl anabl sy’n ymuno â’r cynllun.<br>Wrth i waith fynd rhagddo i gyflawni yn erbyn y cynllun gweithredu i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sectorau ôl-16, bydd mesurau newydd yn cael eu sefydlu a thargedau’n cael eu gosod.<br>Cynyddu’r niferoedd sy’n ymuno â’r cynllun o gymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME); rydym yn cydweithio â sefydliadau arbenigol fel Race Council Cymru, Cymorth Ieuenctid lleiafrifoedd ethnig i hyrwyddo cyfleoedd prentisiaeth i bobl BAME. |
| Integreiddio | Deall effaith ymrwymiadau newydd y llywodraeth ar gynlluniau prentisiaethau a chyllideb.. | Sefydlu dulliau gweithio clwstwr mewn sectorau blaenoriaeth, gan adlewyrchu ymrwymiadau’r llywodraeth.<br>Pan fo unrhyw gynhyrchion newydd yn cael eu comisiynu, ystyried yn llawn lefel a chostau prentisiaethau. |
| Cydweithredu | Deall effaith ymrwymiadau newydd y llywodraeth ar gynlluniau prentisiaethau a chyllideb. | Trafod y canfyddiadau â Cymwysterau Cymru (mae Cymwysterau Cymru’n cynnal Adolygiadau o’r Sector er mwyn sicrhau bod cymwysterau galwedigaethol yn adlewyrchu’r sgiliau y mae cyflogwyr eu hangen). |

| Ffordd o weithio | Cyfle i wella | Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru |
| --- | --- | --- |
| Cydweithredu | Efallai y bydd lle i gydweithredu mwy ar raglenni i annog benywod i gymryd rhan yn y sector gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a gweithgynhyrchu (STEM). | Cyhoeddi pecyn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i gefnogi darparwyr a chyflogwyr sy'n cynnwys modiwlau ar hunaniaeth o ran rhywedd, stereoteipio a rhagfarn ddiarwybod.<br>Parhau i annog cydweithredu â rhaglenni fel 'Nid Dim Ond ar gyfer Bechgyn' Chwarae Teg a darparwyr i ddefnyddio eu hymyriadau eu hunain megis modelau rôl i annog menywod i gymryd rhan mewn prentisiaethau STEM.<br>Ystyried dull strategol o gydweithredu â rhaglenni eraill sydd â'r nod o gael menywod i gymryd rhan mewn gweithgareddau STEM. |
| Cymryd rhan | Ymgysylltu â busnesau bach a chanolig (BBaChau) a micro-gyflogwyr. | Llywio cynnwys dysgu prentisiaethau drwy gyfuniad o argymhellion gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, gwybodaeth am y farchnad lafur ac adolygiadau o'r sector a gynhelir gan Cymwysterau Cymru.<br>Defnyddio Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru i'n helpu i fuddsoddi yn y llefydd lle bydd yn cael yr effaith fwyaf. |
| Cymryd rhan | Cynnwys prentisiaid. | Gwella'r ffordd yr ydym yn ymwneud yn barhaus â phrentisiaid, ac ystyried sut gallwn wneud hyn ochr yn ochr â phartneriaid. |
| Cymryd rhan | Cyfleoedd i ymgysylltu â rhieni. | Datblygu platfform TGCh newydd ar y we i ddarparu gwasanaeth canolog ar gyfer swyddi gwag y gall rhieni a dylanwadwyr allweddol eraill gael gafael arno'n rhwydd. |
| Cymryd rhan | Ymgysylltu â'r gymuned Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig. | Ail-lansio'r pecyn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer darparwyr prentisiaethau fel pecyn ar-lein yn cynnwys adnoddau amrywiol a gwybodaeth ddefnyddiol yn cynnwys: canllawiau; cyngor; taflenni gwaith; fideos addysgiadol; dolenni i wefannau a dolenni i gyfryngau cymdeithasol.<br>Er nad oes unrhyw gynllun ar hyn o bryd i ddatblygu cynllun gweithredu sy'n ymwneud yn benodol â phobl BAME, rydym yn dilyn dull tebyg ar gyfer chwalu rhwystrau a chodi ymwybyddiaeth drwy nodi modelau rôl. |

## Arddangosyn 6: cam gweithredu Llywodraeth Cymru – Cynnig gofal plant Cymru

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru'n ymrwymiad allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn Ffyniant i Bawb. Bwriad y cynnig yw cefnogi rhieni sy'n gweithio gyda chostau gofal plant, sy'n gallu rhwystro rhieni, a mamau'n benodol, rhag dychwelyd i'r gwaith neu wneud dewisiadau gwahanol o ran cyflogaeth. Mae'r Cynnig yn cynnwys 30 awr o gyfuniad o addysg gynnar a gofal plant.

| Ffordd o weithio | Cyfle i wella | Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| Tymor hir | Mae sicrhau bod y cynnig yn cynorthwyo amrywiaeth o ddarpariaeth gofal plant. | Adolygu'r negeseuon sy'n ymwneud â'r Cynnig er mwyn sicrhau bod mynediad iddo yn deg ac yn glir a pharhau i adolygu'r effaith y mae'r buddsoddiad hwn yn ei gael ar allu a chynaliadwyedd lleoliadau gofal plant |
| Atal | Diffinio amcanion y cynnig yn gliriach. | Parhau i adolygu'r Cynnig, gan sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi teuluoedd sydd angen cymorth gyda chostau gofal plant. |
| Atal | Ni fydd tystiolaeth am effaith y cynnig ar ddatblygiad plant a pharodrwydd ysgol ar gael tan flwyddyn 4 y cynnig. | Bydd gwerthusiad tymor hirach sy'n cwmpasu sawl blwyddyn yn cael ei gomisiynu yn 2020 gan ein galluogi i gydweithio â theuluoedd dros gyfnod ehangach gan asesu'r effaith ar ddatblygiad plant yn briodol. |
| Atal | Deall sut mae'r cynnig yn rhyngweithio â'r systemau treth a budd-daliadau. | Mae'r mater hwn yn cael sylw yn y gwerthusiad o flwyddyn gyntaf darparu'r Cynnig, a thrwy sylwadau a ddarparwyd gan dderbynwyr unigol.<br>Fel rhan o'r gwaith o greu system wirio genedlaethol ar gyfer ceisiadau a chymhwysedd i Gymru, byddwn yn ystyried ffyrdd o helpu rhieni i ddeall yr hyn y mae ganddynt hawl iddo a'r ffordd y mae'n rhyngweithio â gwasanaethau eraill. |
| Integreiddio | Sicrhau bod cyllid ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei wario. | Bydd canllawiau diwygiedig yn cael eu cyflwyno i awdurdodau lleol mewn perthynas â'r cyllid i gefnogi plant sydd ag anghenion ychwanegol. Bydd hyn yn dilyn trafodaethau ag awdurdodau lleol ynghylch y wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arnynt a'r ffordd orau o integreiddio'r cymorth hwn gyda gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). |
| Cydweithredu | Ymgysylltu ar lefel ysgol. | O edrych yn ôl, efallai y byddai ymgysylltu'n gynharach ag ysgolion wedi helpu i godi ymwybyddiaeth yn gyflymach ymysg rhieni, ac wedi cynorthwyo gyda'r cydweithio rhwng |

| Ffordd o weithio | Cyfle i wella | Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| | | darparwyr addysg a gofal plant. Mae'r cydweithio hwn yn allweddol er mwyn sicrhau cysondeb wrth ddarparu'r naill agwedd ar y Cynnig a'r llall.<br>Parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol i ymgysylltu a'r sector addysg ledled Cymru.<br>Parhau i ymgysylltu â'r sector addysg ynghylch y Cynnig, ac mae'r cyllid sydd ar gael drwy'r Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf yn allweddol er mwyn bwrw ymlaen â hyn. |
| Cydweithredu | Cymorth i rieni nad ydynt yn gweithio. | Cynnal adolygiad o'r Cynnig ar hyn o bryd gan ystyried ymarferoldeb ei ymestyn i gynnwys rhieni mewn addysg neu hyfforddiant neu sydd ar fin dychwelyd i'r gwaith. |
| Cymryd rhan | Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen iddi nawr gynnwys ysgolion yn fwy uniongyrchol wrth hyrwyddo'r cynnig i annog pobl i gymryd rhan ac i integreiddio Meithrinfa Cyfnod Sylfaen ac elfennau gofal y cynnig yn well. | Parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol i ymgysylltu â'r sector addysg ledled Cymru.<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi £81 miliwn mewn cyllid cyfalaf i gefnogi'r broses o ddarparu'r Cynnig, ac yn benodol alinio a chydleoli'r elfennau addysg gynnar a gofal plant. Bwriad y cyllid hwn yw cefnogi mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion a darparwr gofal plant, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau penodol ar gyfer ysgolion ar ddarparu gofal plant a chydweithio â darparwyr gofal plant i ddarparu'r Cynnig. |

Arddangosyn 7: cam gweithredu Llywodraeth Cymru – Y Gronfa Iach ac Egnïol (HAF)

Mae'r HAF yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n darparu mewn ffordd integredig ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i gyflwyno Bond Llesiant a Chronfa Her ar gyfer Chwaraeon.

| Ffordd o weithio | Improvement opportunity | Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| Tymor hir | Deall effaith tymor hwy ar iechyd cyfranogwyr. | Parhau i asesu ymarferoldeb mesur effeithiau y tu hwnt i 12 mis wedi i'r cyllid ddod i ben mewn gwerthusiadau o raglenni'r dyfodol. |
| Tymor hir | Cynaliadwyedd tymor hir y prosiectau. | Er na fyddai'n bosibl ymestyn y contract gwerthuso am sawl blwyddyn y tu hwnt i ddiwedd y rhaglen, rydym yn bwriadu gofyn i brosiectau am eu cynlluniau at y dyfodol fel rhan o'r cam gwerthuso 12 mis ar ôl cyllido. |
| Tymor Hir | Ystyriwch y gallu i raddio ar y dechrau. | Yn ystod cam cyflawni'r prosiectau, dyrannwyd swyddog achos penodedig i bob prosiect llwyddiannus a fydd yn monitro cynnydd a thynnu sylw bwrdd y prosiect at unrhyw gyfleoedd / risgiau posibl. |
| Atal | Gwerthuso a ellir dangos bod newidiadau tymor byr mewn ymddygiad neu well llesiant wedi atal unrhyw ganlyniadau iechyd negyddol o ran y dyfodol.. | Er nad ydym yn credu ei bod yn bosibl sefydlu cysylltiad rhwng y grwpiau amrywiol sy'n cymryd rhan yn yr 17 prosiect graddfa fach, gwahanol iawn a chanlyniadau iechyd tymor hir (byddai casglu'r data hwn yn codi pryderon moesegol), byddwn yn parhau i asesu ymarferoldeb gwneud hynny mewn gwerthusiadau o'r rhaglen yn y dyfodol. |
| Integreiddio | Ystyried sut mae'r gronfa'n effeithio ar amcanion llesiant partneriaid. | Cywiro dogfennau'r prosiect ar y ffordd y mae'r gronfa'n cyd-fynd ag amcanion llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru. |
| Cydweithredu | Gan ystyried yn gynnar sut y gall Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (fel Deddf Diogelu Data 2018) (GDPR) effeithio ar gydweithrediad llwyddiannus | Ystyried, o fewn paramedrau GDPR, ffyrdd y gallem fod wedi hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth yn well rhwng prosiectau llwyddiannus wrth iddynt ddatblygu. |

| Ffordd o weithio | Improvement opportunity | Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| Cymryd rhan | Cynyddu cyfranogiad y gymuned yn y prosiectau. | Asesu'r ffordd y mae'r pum ffordd o weithio, gan gynnwys cymryd rhan, yn rhan annatod o'r prosiectau ac yn un o'r amcanion gwerthuso ar lefel y rhaglen. Byddwn yn parhau i gydweithio â'r gwerthuswr i nodi ffyrdd priodol o fwrw ymlaen â hyn. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru